# LEADER 2014-2020

# STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH

## RHAGFYR 2014
## (Fersiwn 2)

FERSIWN: 1
DYDDIAD: MEDI 2014

**Defnyddiwch ffont Arial Maint 12 drwy gydol y ddogfen er cysondeb**

Canllaw yn unig yw'r templad hwn. Sicrhewch eich bod yn ei lenwi ar y cyd â'r ddogfen Canllawiau llawn Strategaeth Datblygu Lleol LEADER 2014-2020 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014

## ENW'R GRŴP GWEITHREDU LLEOL (GGLl) A MANYLION CYSWLLT

| | |
|---|---|
| **Enw'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl)** | Cadwyn Clwyd, Sir Ddinbych |

### Prif Gyswllt y Corff Gweinyddol

| | |
|---|---|
| **Enw** | Lowri Owain, Prif Weithredwr, Cadwyn Clwyd |
| **Rhif ffôn** | 01490 340 500 |
| **E-bost** | lowri.owain@cadwynclwyd.co.uk |
| **Cyfeiriad** | Llys Owain,<br>Stryd y Bont,<br>Corwen,<br>Sir Ddinbych<br>LL21 0AH. |

### Ail Gyswllt y Corff Gweinyddol

| | |
|---|---|
| **Enw** | Delyth Jones |
| **Rhif ffôn** | 01490 340 500 |
| **E-bost** | Delyth.jones@cadwynclwyd.co.uk |
| **Cyfeiriad** | Llys Owain,<br>Stryd y Bont,<br>Corwen,<br>Sir Ddinbych<br>LL21 0AH. |

## AMSERLENNI GWEITHREDU'R STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Dechrau Arfaethedig**<br>(dim cynt na 1 Ionawr 2015) | 1 Ionawr 2015 |
| **Dyddiad Gorffen**<br>(dim hwyrach na 31 Rhagfyr 2021) | 31 Rhagfyr 2021 |

Darparwyd terfynau geiriau ar gyfer pob adran ond nid ydynt yn gyfarwyddol

## ADRAN 1– CYSONDEB STRATEGOL

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â strategaethau, polisïau a rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac i ba raddau y mae'n gyson ag Ardaloedd â Ffocws Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (2014-2020) a'r pum thema LEADER sy'n briodol i gyd-destun y Strategaeth. |
| Yn gysylltiedig ag | Adrannau 1 a 3.5 Canllawiau'r Strategaeth Datblygu Lleol, Mehefin 2014 |

### 1.1 Diffiniad o'r ardal a'r boblogaeth y mae'r strategaeth yn eu cwmpasu *(2,000 gair)*

**Trosolwg o ardal ddaearyddol arfaethedig y Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) a'i phoblogaeth. Ffigurau poblogaeth yn ôl wardiau gwledig, wardiau gwasanaeth a wardiau cartref.**

Mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu'r wardiau y bwriedir eu cynnwys a data poblogaeth y wardiau hynny:

| Ward | Sir | Poblogaeth[1] |
|---|---|---|
| Bodelwyddan | Sir Ddinbych | 2,188 |
| Corwen | Sir Ddinbych | 2,348 |
| Dinbych Canolog | Sir Ddinbych | 2,087 |
| Dinbych Isaf | Sir Ddinbych | 4,639 |
| Dinbych Uchaf/Henllan | Sir Ddinbych | 3,150 |
| Efenechtyd | Sir Ddinbych | 1,692 |
| Llanarmon-yn-Ial/Llandegla | Sir Ddinbych | 2,513 |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal | Sir Ddinbych | 1,414 |
| Llandrillo | Sir Ddinbych | 1,124 |
| Llandyrnog | Sir Ddinbych | 2,168 |
| Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern | Sir Ddinbych | 2,222 |
| Llangollen | Sir Ddinbych | 4,013 |
| Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch | Sir Ddinbych | 1,916 |
| Rhuddlan | Sir Ddinbych | 4,296 |
| Rhuthun | Sir Ddinbych | 5,567 |
| Dwyrain Llanelwy | Sir Ddinbych | 1,682 |
| Gorllewin Llanelwy | Sir Ddinbych | 1,662 |

[1] Amcangyfrifon Canol 2012. (Ffynhonnell: LEADER 2014-2020 Datganiad o Ddiddordeb i ffurfio grŵp gweithredu lleol ar gyfer Sir Ddinbych).

| | | |
|---|---|---|
| Trefnant | Sir Ddinbych | 1,956 |
| Tremeirchion | Sir Ddinbych | 1,662 |
| Dyserth | *Sir Ddinbych* | *2,269 (Ward gwasanaeth)* |

**Ardal Awdurdod Lleol a Chynllun Gofodol y mae'r strategaeth yn eu cwmpasu**

Cyngor Sir Ddinbych yw'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal arfaethedig.

**Cydlyniad**

Dewiswyd yr ardal oherwydd ei chydlyniad yn nhermau nodweddion daearyddol, economaidd a chymdeithasol. Dwysedd y boblogaeth yw 0.59 o bobl i bob Ha. I gyfeiriad y dwyrain, mae Bryniau Clwyd yn nodwedd amlwg sy'n bwrw cysgod dros yr ardal arfaethedig gyfan, i gyfeiriad y gorllewin saif Mynydd Hiraethog ac i'r de, mae Mynyddoedd y Berwyn yn ffurfio naturiol. Mae dwysedd poblogaeth yr ucheldir hwn yn llai na gweddill yr ardal wledig, sef 0.29 o bobl i bob Ha. Ar y gwastatir mae canolfannau gwasanaeth gwledig hanesyddol Llanelwy, Dinbych a Rhuthun a ddatblygodd yn Nyffryn Clwyd yn rhan ogleddol yr ardal, ac yn yr un modd mae Corwen a Llangollen wedi datblygu yn Nyffryn Dyfrdwy i'r de. Rhuthun a Dinbych yw'r unig drefi yn yr ardal â phoblogaeth o dros 5,000. Mae 9,876 o bobl yn byw yn Ninbych a 5,567 yn Rhuthun. Y tu allan i'r trefi, mae'r amgylchedd adeiledig wedi'i gyfyngu yn bennaf i bentrefi gwledig gwasgaredig a ffermydd anghysbell. Hyd yma, cyfyngwyd ar ddatblygiadau tai yn ucheldir yr ardal gyda'r nod o wasanaethu anghenion lleol a chynnal cymeriad r ardal.

Defnyddir y tir yn bennaf ar gyfer amaethyddiaeth (ffermio gwartheg a defaid yn bennaf) a choedwigaeth leol. Er gwaethaf y problemau sydd wedi effeithio ar y diwydiant ffermio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, llwyddwyd i gynnal patrymau amaethyddol traddodiadol a'r sector hwn yw un o'r rheini sy'n cyfrannu fwyaf at y stoc o fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn yr ardal. Mae asedau naturiol yr ardal yn elwa o statws gwarchodaeth statudol – mae Mynyddoedd y Berwyn yn Ardal Warchodaeth Arbennig ar gyfer Adar ac yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol; mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE); ac mae Mynydd Hiraethog wedi'i ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA). Dyffryn Clwyd oedd y cofnod cyntaf ar gofrestr anstatudol Cadw/CCW/ICOMOS o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r tirweddau hyn yn hynod o ddeniadol i ymwelwyr. Dynodwyd sawl safle o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Llwyn, Mynydd Llandegla a Choed Dyffryn Elwy. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cynnwys y brigiadau calchfaen yn Eyarth ger Rhuthun a Choed Crest Mawr yn Ninbych.

Mae tirwedd Sir Ddinbych o ansawdd uchel iawn ac yn hynod o amrywiol o ganlyniad i amryw o ddylanwadau daearegol, ecolegol, hanesyddol a diwylliannol. Mae'n ardal o fryniau a dyffrynnoedd, cymysgedd o ucheldir ac iseldir, ynghyd ag arfordir tywodlyd ym mhen ogleddol yr ardal. I'r dwyrain o ddyffryn hir ac eang afon Clwyd, saif crib amlwg a hynod Bryniau Clwyd ac ar yr ochr orllewinol mae tref

Dinbych, Bryniau Rhuthun a llwyfandir Mynydd Hiraethog. Mae Dyffryn Clwyd yn nodwedd drawiadol iawn wrth edrych i lawr o Fynyddoedd Clwyd gerllaw. Yn ne'r Sir, mae dyffryn dwfn a chul afon Dyfrdwy a chrib rhostir Mynydd Llantysilio ar un ochr a llwyfandir eang ac anghysbell ucheldir Mynyddoedd y Berwyn ar y llall.

Yn gysylltiedig â'r topograffeg a'r daeareg amrywiol hwn, ceir sbectrwm cyfan o gynefinoedd yn y Sir. Cyferbynna glaswelltir gorlifdiroedd, banciau tywod a fflatiau mwd aberoedd yr arfordir â choetiroedd hynafol, gweundiroedd yr ucheldir a glaswelltir calchaidd mewndirol sy'n gyfoethog mewn perlysiau. Mae coetiroedd derw, coetiroedd ynn cymysg a choetiroedd gwern oll yn elfennau pwysig o'r coetiroedd llydanddail brodorol. Y prif gynefin yw glaswelltir wedi ei wella, sydd o werth cymharol isel o safbwynt bioamrywiaeth, ond yma ac acw ceir olion cynefinoedd rhannol-naturiol, gan gynnwys ardaloedd o dir gwlyb a glaswelltir heb ei wella, a choridorau o anfonydd bychain a phyllau, ac maent oll yn nodweddion pwysig iawn ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae ansawdd ac amrywiaeth tirweddau gwledig Sir Ddinbych yn cyfrannu'n sylweddol at atyniad yr ardal i ymwelwyr a thrigolion. Mae'r tirweddau hyn yn cynnig cefnlen naturiol eithriadol i adfywio'r ardal wledig mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.

O blith yr ychydig ddiwydiannau gweithgynyrchu yn yr ardal, mae nifer ohonynt yn seiliedig ar yr economi wledig, megis prosesu bwyd yn Rhuthun, Corwen a Llandyrnog neu gynhyrchu cerbydau fferm yng Nghynwyd, ger Corwen. Mae'r trefi hefyd yn cynnig llawer o swyddi i fusnesau sy'n gwasanaethu'r economi amaethyddol.

Mae gan yr ardal hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gadarn â thraddodiad o wyliau cerddorol. Mae cyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth sy'n codi i dros 60% mewn rhai wardiau. Trefnir nifer o gyrff cymunedol a chymdeithasol, megis y ddau undeb amaethyddol, Sefydliad y Merched, y Ffermwyr Ifanc, yr Urdd a Merched y Wawr ar lefel ardal. Yn ogystal, mae'r ardal o fewn talgylch pum ysgol uwchradd sy'n gwasanaethu ardal wledig Sir Ddinbych.

Amlygir cydlyniad yr ardal hefyd yn ei rhwydwaith cludiant ac mae'r A525/A542 yn rhedeg o'r gogledd i'r de gan gysylltu'r anheddiadau. Mae'r llwybr hwn hefyd yn cysylltu â'r tri phrif goridor trafnidiaeth sy'n croesi'r ardal, sef ffordd gyflym yr A55 yn y gogledd, priffordd yr A494 rhwng yr Wyddgrug drwy Rhuthun i Gorwen yn y canol, a chefnffordd yr A5 o Fwrdeistref Sirol Wrecsam drwy Llangollen i Gorwen yn Nyffryn Dyfrdwy yn y de.

**Bwriad i weithio ar draws ffiniau**

Penodwyd Cadwyn Clwyd gan Lywodraeth Cymru fel y corff gweinyddol i gefnogi'r gwaith o gyflewni LEADER yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hyn yn cynnig cyfle unigryw i wneud y mwyaf o gysylltiadau a synergeddau ar draws ardaloedd y tri awdurdod lleol yn nhermau'r strategaethau datblygu lleol a'r camau gweithredu i'w cyflenwi. Cynhaliwyd y gwaith ymgynghorol sy'n sail i'r tair ddogfen Strategaeth Datblygu Lleol ar ffurf proses integredig a nodwyd cyfleoedd allweddol, strategol mewn perthynas â gweithio ar draws ffiniau'r tair ardal i gyflenwi buddion a

chanlyniadau tebyg. Nodir y rhain yn glir yn adrannau perthnasol y Strategaeth hon.

Y bwriad hefyd yw gweithio'n agos gyda Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) Conwy a gwneir ymdrech fawr drwy gydol y cyfnod gweithredu i wneud y mwyaf o gysylltiadau a synergeddau â Chonwy. Mae hyn yn hynod o berthnasol o ystyried argymhelliad adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus sef y dylai Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych uno[2].

Yn ogystal, nodwyd sawl cyfle strategol i gydweithio ar draws ffiniau gyda Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r cyfleoedd hyn yn gysylltiedig â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'r Safle Treftadaeth y Byd ac unwaith yn rhagor, nodir y cyfleoedd hyn yn adrannau perthnasol y Strategaeth hon.

## 1.2 Disgrifiad o'r Integreiddio

*(2,500 gair – i'w cysylltu â'r camau gweithredu a ddisgrifir yn Adran 3.1 – Rhesymeg Ymyrryd)*

**Ategu strwythurau a mentrau eraill**

| **Strwythur Presennol** | **Sut y bydd LEADER yn ategu strwythurau eraill, yn hytrach na'u dyblygu** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych (BGLl) | Bydd buddsoddiad LEADER yn ardal wledig Sir Ddinbych yn ategu gwaith nifer o adrannau CSDd. Bydd camau gweithredu a gynllunir o dan themâu LEADER 1, 2 a 3 yn cynnig sawl cyfle i ategu gwaith gwahanol adrannau CSDd. Yn benodol, bydd mwy o bwyslais yn ystod y cyfnod 2014-2020 ar thema 3 LEADER (Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol) a fydd yn cynnig sawl cyfle i ategu gwaith CSDd, er enghraifft: cefnogi mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau trwy ddulliau newydd ac arloesol. Byddwn yn osgoi dyblygu drwy sicrhau bod aelodau CSDd yn chwarae rhan weithredol ar y GGLl ac yn helpu i lywio cynllun prosiectau er mwyn ceisio ein gorau i ategu gwasanaethau a gweithgareddau CSDd. |
| Busnes Cymru ac Asiantaeth Menter Sir Ddinbych | Bydd buddsoddiadau trwy thema 2 LEADER (hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr) yn ategu gwaith Busnes Cymru ac Asiantaeth Menter Sir Ddinbych. Bydd buddsoddiadau LEADER yn canolbwyntio ar dreialu a rhoi prawf ar hyfywedd cysyniadau cyn-fasnachol. Ar ôl eu profi, caiff yr entrepreneuriaid sydd y tu ôl i'r syniadau hyn eu cyfeirio at Busnes Cymru ac Asiantaeth Menter Sir Ddinbych fel sy'n briodol i gael cymorth cychwyn busnes prif ffrwd. Byddir yn osgoi dyblygu drwy sicrhau bod camau gweithredu LEADER yn mynd i'r afael â methiannau penodol y |

[2] Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Adroddiad Llawn. Ionawr 2014. Tudalen 94.

| | |
|---|---|
| | farchnad yn y cam 'prawf o gysyniad' cyn-fasnachol. Cynhelir cyfarfodydd cysylltu rheolaidd gyda chysylltiadau Busnes Cymru i sicrhau integreiddio llawn. |
| Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal wledig Sir Ddinbych | Mae cynghorau tref a chymuned wedi bod yn rhanddeiliaid allweddol wrth gyflenwi'r Rhaglen LEADER bresennol yn ardal wledig Sir Ddinbych a byddant yn parhau i fod yn bartneriaid allweddol yn y rhaglen newydd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ategu eu gwaith ac yn osgoi dyblygu drwy weithio'n agos gyda chynghorau tref a chymuned a rhoi cymorth iddynt ymgysylltu â'r gymuned, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu LEADER yn ymateb i anghenion y gymuned a lle bo hynny'n bosibl yn buddsoddi ar y cyd â chynghorau tref a chymuned i wneud y mwyaf o werth am arian ac enillion ar fuddsoddiad. |
| Colegau Addysg Bellach (Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai). | Bydd buddsoddiad LEADER yn ategu gwaith y ddau goleg Addysg Bellach drwy ganolbwyntio ar brosiectau arddangos (e.e. yn ymwneud ag amaethyddiaeth a sgiliau bwyd a chyfleoedd cyflogaeth). Fel rhanddeiliaid allweddol, mae'r ddau wedi bod yn gysylltiedig â chyfnod y Rhaglen bresennol a byddant yn parhau i chwarae rhan weithredol yn ystod y cyfnod 2014-2020. Byddwn yn osgoi dyblygu drwy sicrhau y cynhelir trafodaethau helaeth gyda phartneriaid Addysg Bellach wrth gynllunio a rhoi'r prosiectau LEADER ar waith. |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | Mae hwn yn gorff allweddol o safbwynt ymgysylltu â'r AHNE ac mae perthynas gref eisoes yn bodoli rhwng aelodau'r GGLl, y corff gweinyddol a'r Pwyllgor. Disgwylir y bydd cysylltiad rhwng aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a'r Pwyllgor Ymgynghorol a bydd hyn yn sail ar gyfer sicrhau ategu helaeth, cydweithio yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer buddsoddi ar y cyd. |
| Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd | Bydd y GGLl yn gweithio'n agos gyda grŵp partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd i sicrhau bod buddsoddiadau yn strategol ac yn gwneud y mwyaf o werth posibl y Safle Treftadaeth y Byd ei hun ar sail is-ranbarthol. Byddwn yn osgoi dyblygu drwy sicrhau yr ymgynghorir â chynrychiolwyr partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd ac y cânt eu cynnwys mewn mentrau LEADER sy'n ceisio gwneud y mwyaf o fuddion sosio-economaidd y safle. |
| Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) | Mae'r trydydd sector wedi bod yn bartner allweddol yn y gwaith o gyflenwi LEADER yn ardal wledig Sir Ddinbych yn ystod cyfnod y rhaglen bresennol. Bydd hyn yn parhau yn y dyfodol a rhoddir mwy o bwyslais ar gefnogi mentrau lleol, trosglwyddo asedau cymunedol a hwyluso mynediad at wasanaethau lleol |

| | |
|---|---|
| | anstatudol a'u darparu (e.e. trwy gynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus). Bydd CGGSDd yn bartner allweddol yn y GGLl ac yn gweithio'n agos gyda'r GGLl i sicrhau bod camau gweithredu LEADER yn cefnogi ac yn gwneud y mwyaf o botensial gwirfoddolwyr a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol yn ardal wledig Sir Ddinbych. |
| Ffederasiwn y Busnesau Bach | Bydd Ffederasiwn y Busnesau Bach yn parhau i fod yn bartner allweddol o dan y rhaglen newydd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ategu ei waith ac yn osgoi dyblygu drwy weithio'n agos gyda'r Ffederasiwn er mwyn sicrhau y caiff 'llais busnesau' ei glywed a bod camau gweithredu LEADER yn ymateb i anghenion busnes a lle bo hynny'n bosibl yn buddsoddi ar y cyd gyda'r sector preifat i wneud y mwyaf o werth am arian ac enillion ar fuddsoddiad. |
| Mesurau eraill y Cynllun Datblygu Gwledig gan gynnwys Glastir | Bydd gweithgaredd LEADER yn ategu mesurau eraill y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) gan y bydd pwyslais clir ar arloesi a dulliau gweithredu newydd. Bydd pwyslais penodol ar ategu gweithgareddau eraill y CDG drwy sicrhau, lle bo hynny'n bosibl, bod camau gweithredu arloesol a gaiff eu treialu gan LEADER yn bwydo ac yn llywio camau gweithredu eraill y CDG. Byddwn yn osgoi dyblygu drwy ddewis camau gweithredu o dan y Strategaeth hon sy'n ystyried mesurau eraill y CDG ac yn canolbwyntio ar themâu a meysydd na fyddai'n cael eu cynnwys na'u cefnogi fel arall.<br>Bydd prosiectau sy'n deillio o thema 1 sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r amgylchedd yn ategu blaenoriaethau o dan Glastir; cyfeirir y prosiectau o'r sectorau bwyd ac amaeth a fydd yn cymryd rhan o dan thema 2 at y Cynllun Grant Prosesu a Marchnata a / neu Cyswllt Ffermio lle bo hynny'n briodol. Hefyd bydd prosiectau bwyd-amaeth o dan thema 2 yn treialu mentrau o dan LEADER gyda'r nod o'u prif-ffrydio o dan y cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi/Cydweithio o dan y CDG.  Caiff mentrau ynni adnewyddadwy a allai gynnwys y gymuned amaethyddol eu cyfeirio at Glastir a Cyswllt Ffermio yn y lle cyntaf i osgoi unrhyw ddyblygu posibl. |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Rhagwelir y bydd cysylltiad rhwng aelodaeth GGLl Sir Ddinbych (a Sir y Fflint a Wrecsam) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd trafodaethau rheolaid gyda'r bwrdd yn sicrhau bod buddsoddiadau LEADER yn ffitio'n strategol i'r cyd-destun is-ranbarthol ehangach. Bydd hyn hefyd o gymorth i osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddyblygu wrth i brosiectau gael eu datblygu'n fwy manwl. |
| Croeso Cymru | Yn dilyn diddymu Partneriaeth Twristiaeth Gogledd |

| | |
|---|---|
| | Cymru, rhagwelir y bydd angen i'r GGLL a'r corff gweinyddol ymwneud yn uniongyrchol â Chroeso Cymru i sicrhau bod y gwaith yn ategu polisïau a mentrau twristiaeth. |
| Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg | Gofynnir am gyngor rhagweithiol fel sy'n briodol gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod holl weithgareddau LEADER yn ategu, a lle bo hynny'n bosibl, yn mynd yn uwch na gofynion y Safonau Iaith sydd yn cael eu cyflwyno. |
| Clwstwr Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Byddwn yn parhau i drafod gyda chlwstwr Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych (sy'n cynnwys wardiau Dinbych Uchaf/Henllan ward 1) sydd hefyd yn gymwys ar gyfer LEADER. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod y GGLL yn ymwybodol iawn o anghenion y gymuned leol a chyfleoedd yn ward wledig Cymunedau yn Gyntaf gyda'r bwriad o gomisiynu gweithgareddau ar y cyd a buddsoddi ar y cyd, lle bo hynny'n bosibl. Bydd y trafodaethau parhaus hyn hefyd yn lleihau'r perygl o ddyblygu unrhyw ymdrechion. |
| Cadw, Ymddiriedolaeth Camlesi Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru | Byddwn yn parhau i gael trafodaethau rheolaidd (yng nghyfarfodydd y GGLL a chyfarfodydd dwyochrog) gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau bod gweithgareddau LEADER yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at fentrau eraill yn y diwydiant ffermio, safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte ac amgylchedd gwledig Sir Ddinbych yn ehangach. |
| Undebau Amaethwyr a'r CLA | Byddwn yn cael trafodaethau parhaus a rheolaidd (yng nghyfarfodydd y GGLL a chyfarfodydd dwyochrog) gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau bod gweithgareddau LEADER yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at fentrau eraill yn y diwydiant ffermio. |
| Menter Cyflymu Cymru | Bydd buddsoddiadau o dan thema 5 (Datblygu Technoleg Ddigidol) yn ategu'r fenter Cyflymu Cymru. Bydd buddsoddiadau LEADER yn canolbwyntio ar hybu ac annog defnydd ehangach o dechnoleg ddigidol, yn enwedig ymhlith microfusnesau a busnesau bach yn y sectorau twristiaeth, lletygarwch a bwyd. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud y gorau o'r cyfle a ddaw yn sgil band eang cyflymach o ran gwella effeithlonrwydd, cynhyrchiant a chael mynediad at farchnadoedd newydd e.e. trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn osgoi dyblygu gan na fydd LEADER yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith band eang yn yr ardaloedd rheini lle mae gwasanaeth arfaethedig Cyflymu Cymru yn 'derbyn archebion', 'wedi'i gynllunio' neu 'ar ei ffordd yn fuan'[3]. |

[3] Ffynhonnell: http://www.superfast-cymru.com/where-and-when

| | |
|---|---|
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) | Bydd cysylltiadau agos yn parhau gyda Thîm Ewropeaidd Gofodol Gogledd-ddwyrain Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn ategu prosiectau'r Gronfa Strwythurol sy'n gweithredu yn yr ardal wledig ac i nodi cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau Cronfeydd Strwythurol a all godi o fentrau'r CDG a LEADER. |

**Cydlyniad a chysondeb rhwng strategaethau lleol, is-ranbarthol a chenedlaethol**

Er mwyn dangos cydlyniad a chysondeb rhwng strategaethau ar wahanol lefelau gofodol, rydym wedi grwpio strategaethau perthnasol ynghyd o dan pum thema LEADER. Yna, rydym wedi nodi'r themâu a'r blaenoriaethau cyson a darparu cyfeiriadau i gefnogi ein dadansoddiad.

**Thema 1 – Ychwanegu Gwerth i Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Chenedlaethol**

| Lleol | Is-ranbarthol | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023)<br><br>Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych (2014-2017)<br><br>Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas: Strategaeth ar gyfer Llangollen.<br><br>Cynlluniau Tref ac Ardal Sir Ddinbych. | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu (2015-2020)<br><br>Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-15) | Rhaglen Lywodraethu (Penodau 10 ac 11)[4]<br><br>Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth, Llywodraeth Cymru (2013-2020)<br><br>Dyfodol ein Gorffennol – Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. (2013)<br><br>Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol 'Bwyd a Diod i Gymru'. (2009)<br><br>Strategaeth y Gymraeg (2012-2017)<br><br>Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2014)<br><br>Coetiroedd i Gymru, Llywodraeth Cymru |

[4] Rhaglen Lywodraethu, Pennod 10 – Cymunedau Gwledig a Phennod 12 – Diwylliant a Threftadaeth Cymru. Ym Mhennod 10, nodir mai'r bwriad yw 'sicrhau bod cymunedau gwledig yn parhau i ffynnu ac yn cynnig ansawdd bywyd rhagorol' (Tudalen 37), ac mae Pennod 12 yn cynnwys y nod o '[g]yfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant a'n treftadaeth' (Tudalen 46).

| | | |
|---|---|---|
| | | (diwygiwyd 2009)<br><br>Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 |

**Themâu/blaenoriaethau strategol cyson:**

- Manteisio ar yr amgylchedd naturiol mewn ffordd sensitif a chynaliadwy i sicrhau twf twristiaeth[5] ar draws yr ardaloedd a gyda phwyslais clir ar AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy[6]. Ymraniad cliriach o'r farchnad a 'thargedu' ymwelwyr i Sir Ddinbych[7] – ar sail asedau allweddol megis yr AHNE a'r Safle Treftadaeth y Byd.
- Datblygu'r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth[8] fel asedau marchnata allweddol i ategu a chryfhau'r farchnad ymwelwyr a chryfhau'r 'ymdeimlad o le'[9] yn lleol.
- Canolbwyntio ar dwristiaeth yr awyr agored, antur, gweithgareddau a thwristiaeth bwyd a diod fel sectorau posibl ar gyfer twf gwerth uchel.[10]
- Datblygu cysylltiadau rhwng ardaloedd ymylol a chanolfannau cyflogaeth[11].

**Thema 2 – Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr**

| Lleol | Is-ranbarthol | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023)<br><br>Cynlluniau Tref ac Ardal | Uchelgais Economaidd – Strategaeth ar gyfer Newid. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (heb ei ddyddio) | Rhaglen Lywodraethu (Pennod 1)[12]<br><br>Strategaeth Blaenoriaethau Sectorau Llywodraeth Cymru[13] |

[5] 'Buddsoddi mewn busnes twristiaeth o safon, a marchnata atyniadau ymwelwyr, llety a'r diwydiant bwyd yng Nghymru yn fwy effeithiol. Byddwn yn ceisio cynnig dull mwy holistaidd o farchnata'r cyfleoedd hyn.' Rhaglen Lywodraethu. Tudalen 42.

[6] Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru (2010-2015). Tudalen 5.

[7] AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Strategaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy 2015-2020. Y Cwmni Twristiaeth. Adran 2.4. Tudalen 26.

[8] 'Cefnogi busnesau a chymunedau lleol i fanteisio ar botensial y Gymraeg a diwylliant a hunaniaeth Gymreig ar gyfer yr economi leol.' Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 9.

[9] 'Mae hunaniaeth a diwylliant Cymreig Sir Ddinbych yn asedau cryf i fanteisio arnynt, yn enwedig ond heb fod wedi'i gyfyngu i'r sector twristiaeth. Rydym yn awyddus i fanteisio ar hyn, er budd economi Sir Ddinbych yn ogystal â'i diwylliant a'i chymuned'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 6.

[10] 'Mae'r Cynllun yn cydnabod gwerth twristiaeth i'r economi ac yn annog datblygu atyniadau ymwelwyr priodol, twristiaeth gweithgareddau awyr agored'. Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych. 2014-2017. Tudalen 2.

[11] Mae Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych yn nodi y gall 'twf economaidd lleol arwain at well canlyniadau i'n trigolion yn seiliedig ar fodel economaidd sy'n cysylltu llwyddiant busnes gyda chynnydd mewn cyfleoedd gwaith, gan arwain at lefelau uwch o incwm a chynnydd mewn grym gwario a fydd, yn ei dro, yn helpu cynnal trefi a chymunedau bywiog'. Tudalen 4.

[12] Rhaglen Lywodraethu, Pennod 1 – Twf a Swyddi Cynaliadwy.

[13] Ffynhonnell: http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/sector/?lang=en Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi naw sector blaenoriaeth sef: Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Adeiladu, Diwydiannau Creadigol, Ynni a'r Amgylchedd, Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, Bwyd a Ffermio, TGCh, Gwyddorau Bywyd a Thwristiaeth.

| | | |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych. | | Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau (2012)<br><br>Arloesi Cymru (2014)<br><br>Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 |

**Themâu/blaenoriaethau strategol cyson:**

- Blaenoriaethu sectorau – blaenoriaethu cyson ar draws strategaethau lleol, is-ranbarthol a chenedlaethol y sectorau twristiaeth, bwyd a ffermio.[14]
- Cefnogi sefydlu busnesau newydd a sefydledig – yn enwedig microfusnesau a busnesau bach a mentrau cymdeithasol trwy ddarparu mynediad at gyllid.[15]
- Gwella cynhyrchiant busnesau, y gallu i gystadlu a thwf.[16]
- Cefnogi entrepreneuriaeth[17] ac arloesi[18].
- Hwyluso cydweithio is-ranbarthol (h.y. gogledd Cymru) ar ddatblygu economaidd lle gellir 'ychwanegu gwerth trwy weithio ar y cyd a chydweithio'[19].

**Thema 3 – Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol**

| Lleol | Is-ranbarthol | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych. Y Cynllun MAWR[20] (2011-2014).<br><br>Strategaeth Uchelgais Economaidd a | Arwain a Dysgu: ein profiad o gydweithio yn y gogledd. CLlLC. (2008)<br><br>Uchelgais Economaidd – | Rhaglen Lywodraethu (Pennod 2)[21]<br><br>Cydamcanu, Cydymdrechu: |

---

[14] 'Mae twristiaeth ac amaethyddiaeth yn sectorau allweddol'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 5. Hefyd, 'Datblygu sectorau allweddol … yn cynnwys twristiaeth'. Ffynhonnell: Uchelgais Economaidd. Strategaeth ar gyfer Newid. Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Tudalen 7.

[15] 'Mae Sir Ddinbych mewn sefyllfa ddaearyddol dda i fanteisio ar gyfleoedd twf economaidd mewn economïau cyfagos, a hefyd i weithredu fel lleoliad ar gyfer twf busnes newydd ei hun'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 18.

[16] 'Y prif ddeilliant sydd ei angen yw cynyddu cynhyrchedd, pa mor gystadleuol yw'r rhanbarth a thwf'. Ffynhonnell: Uchelgais Economaidd. Strategaeth ar gyfer Newid. Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Tudalen 6.

[17] Mae Strategaeth Uchelgais Economaidd Sir Ddinbych yn galw am: '[G]ynnydd mewn menter ac entrepreneuriaeth gyda mwy o bobl yn sefydlu eu busnesau eu hunain'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 25.

[18] Yr angen i '[g]ynyddu mentergarwch a'r nifer o fusnesau sy'n cychwyn, darparu cefnogaeth effeithiol i gwmnïau sy'n tyfu …' Ffynhonnell: Strategaeth ar gyfer Newid. Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Tudalen 6.

[19] 'Mae sawl maes "ychwanegu gwerth" ble y gellir canolbwyntio ar gydweithio arnynt ar unwaith'. Ffynhonnell: Uchelgais Economaidd. Strategaeth ar gyfer Newid. Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Tudalen 10.

[20] Cynllun Integredig Sengl Sir Ddinbych. Ffynhonnell: https://www.Sir Ddinbych.gov.uk/en/your-council/strategies-plans-and-policies/corporate-strategies/the-big-plan.aspx

[21] Rhaglen Lywodraethu, Pennod 2 – Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

| | | |
|---|---|---|
| Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023) | Strategaeth ar gyfer Newid. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (heb ei ddyddio) | Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau (2012)<br><br>Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (2014)[22]<br><br>Parhad a Newid – Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru (2013) |

**Themâu/blaenoriaethau strategol cyson:**

- Cefnogi diwygio a chydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau cyhoeddus.[23]
- Symleiddio a lleihau cymhlethdod wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.[24]
- Cynnwys, cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.[25]
- Gwella cludiant cyhoeddus a chymunedol er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau sylfaenol.[26]

**Thema 4 – Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymunedol**

| Lleol | Is-ranbarthol | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023)<br><br>Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (2006-2021) | Uchelgais Economaidd – Strategaeth ar gyfer Newid. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (heb ei ddyddio) | Rhaglen Lywodraethu (Pennod 11)[27]<br><br>Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun datblygu cynaliadwy i Gymru (2009)<br><br>Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd (2010) |

[22] Gelwir yr Adroddiad yn 'Comisiwn Williams'.
[23] 'Er mwyn hybu ymgysylltiad y gymuned, gweithio mewn partneriaeth a mentergarwch mewn cymunedau gwledig'. Ffynhonnell: Sir Ddinbych. Y Cynllun MAWR (2011-2014). Tudalen 28. Hefyd 'dylid cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithrediad ystyrlon ar draws sectorau, sefydliadau a ffiniau, gyda chyd-gynhyrchu gwasanaethau yn nodwedd allweddol wrth wneud hynny'. Ffynhonnell: Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Adroddiad Llawn. Ionawr 2014. Tudalen 23.
[24] 'Mae cymhlethdod cydberthnasau a strwythurau ffurfiol yn broblem sylfaenol'. Ffynhonnell: Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Adroddiad Llawn. Ionawr 2014. Tudalen 30.
[25] 'Rydym yn credu y bydd sector gwirfoddol a thrydydd sector Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad cynyddol bwysig at ei heconomi dros y blynyddoedd i ddod'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 7.
[26] 'Gwella ymwybyddiaeth a nifer y bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a mentrau eraill i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ynysu a mynediad'. Ffynhonnell: Sir Ddinbych. Y Cynllun MAWR 2011-2014.
[27] Rhaglen Lywodraethu, Pennod 11 – Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

| | | |
|---|---|---|
| | | Strategaeth Tlodi Tanwydd (2010)<br><br>Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2012)<br><br>Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)<br><br>Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2014) |

**Themâu/blaenoriaethau strategol cyson:**

- Cefnogi arloesi, gwaith ymchwil a datblygu a thwf (gan gynnwys swyddi) yn y sector technolegau ynni ac amgylcheddol.[28]
- Cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol, cymunedol gan leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.[29]
- Sicrhau mwy o effeithlonrwydd ynni, canolbwyntio ar newid ymddygiad ac atebion trafnidiaeth carbon isel.[30]

**Thema 5: Datblygu Technoleg Ddigidol**

| Lleol | Is-ranbarthol | Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023) | Uchelgais Economaidd – Strategaeth ar gyfer Newid. Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (heb ei ddyddio) | Rhaglen Lywodraethu (Pennod 2)[31]<br><br>Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru (2010)<br><br>Cynllun Cyflenwi'r Fframwaith Cynhwysiant Digidol (2011) |

**Themâu/blaenoriaethau strategol cyson:**

- Mynd i'r afael â chynhwysiant digidol (yn benodol ymhlith pobl hŷn) a chefnogi datblygu sgiliau/gallu TGCh i wella mynediad at wasanaethau.[32]
- Datblygu cyllun cliriach (gyda chyngor a chymorth) ar gyfer anghenion a chyfleoedd digidol yn Sir Ddinbych – er budd busnesau a thrigolion.[33]

[28] '…manteisio ar gyfleoedd newydd ar gyfer twf, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y sectorau …Technolegau Ynni ac Amgylcheddol'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 17.

[29] Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn cefnogi 'hybu technolegau ynni adnewyddadwy'. (Tudalen 5)

[30] Ymrwymiad i 'agenda ynni carbon isel' Rhaglen Lywodraethu (Tudalen 43) a hefyd, 'cefnogi holl fathau o brosiectau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel' – Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (Tudalen 103)

[31] Pennod 2 – Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

[32] 'O'i gymharu ag ardaloedd eraill, nid yw gweledigaeth Sir Ddinbych o ran sut y gall technoleg ddigidol fod o fudd i'w busnesau a'i thrigolion wedi'i datblygu'n ddigonol'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 13.

- Gwella cysylltiadau digidol a seilwaith band eang.[34]

**Integreiddio**

| | ***Sut*** y bydd LEADER yn Sir Ddinbych yn integreiddio |
|---|---|
| Polisïau a meysydd rhaglenni Llywodraeth Cymru | Trwy'r strategaeth a'r pecyn o gamau gweithredu arfaethedig a amlinellir yn y Strategaeth hon, bydd buddsoddiad LEADER yn ardal wledig Sir Ddinbych yn integreiddio'n glir â blaenoriaethau **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru gan fod o gymorth i'w cyflenwi mewn sawl ffordd.<br><br>Yn benodol, bydd o gymorth i sicrhau twf a swyddi cynaliadwy[35] (trwy'r gwahanol gamau gweithredu a gynigir o dan Themâu 1 a 2), darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffyrdd newydd ac arloesol[36] (trwy'r gwahanol gamau gweithredu a gynigir o dan Thema 3), hyrwyddo cydraddoldeb[37] a'r Gymraeg (fel thema drawsbynciol ar draws yr holl themâu a chamau gweithredu arfaethedig), mynd i'r afael â thlodi,[38] yn benodol tlodi gwledig, arwahaniad a thlodi tanwydd (trwy'r gwahanol gamau gweithredu a gynigir o dan Themâu 3, 4 a 5) ond yn bennaf oll, bydd yn cefnogi cymunedau gwledig[39] fel prif flaenoriaeth strategol ar gyfer y pum thema a'r camau gweithredu cysylltiedig.<br><br>Hefyd, datblygwyd y Strategaeth Datblygu Lleol mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod buddsoddiad LEADER yn ardal wledig Sir Ddinbych yn integreiddio ag amryw o bolisïau a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:<br><br>**Polisïau:**<br>• Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 4 LEADER yn y Strategaeth hon o gymorth i sicrhau nifer o ymrwymiadau polisi **Cymru'n Un:** |

[33] Ibid. Hefyd 'Defnyddio TGCh yn fwy effeithiol i'w gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau iechyd'. Rhaglen Lywodraethu, Tudalen 17.
[34] 'Sicrhau bod gan gymunedau gwledig fynediad i fand eang cyflymach a gwasanaethau digidol newydd'. Rhaglen Lywodraethu. Tudalen 39. Hefyd, 'Mae perfformiad ac argaeledd gwasanaeth ffôn symudol a band eang yn llusgo y tu ôl i ardaloedd eraill yn y DU'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023). Tudalen 12.
[35] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2011-2016. Pennod 1, Tudalen 2.
[36] Ibid. Pennod 2, Tudalen 7.
[37] Ibid. Pennod 8, Tudalen 29.
[38] Ibid. Pennod 9, Tudalen 32.
[39] Ibid. Pennod 10. Tudalen 37.

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cenedl Un Blaned.**[40]<br>• **Strategaeth Twristiaeth**[41] Llywodraeth Cymru. Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 1 LEADER yn y Strategaeth hon o gymorth i sicrhau twf cynaliadwy (trwy hyrwyddo'r brand,[42] datblygu cynnyrch,[43] perfformiad proffidiol[44] a meithrin lle[45]) yn y diwydiant twristiaeth yn ardal wledig Sir Ddinbych drwy fanteisio i'r eithaf ar ei hasedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth.<br>• **Strategaeth y Gymraeg.**[46] Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Themâu 1, 2 a 3 LEADER yn y Strategaeth hon, yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned,[47] y gweithle ac ym myd busnes.[48]<br>• Polisi sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud ag **amgylchedd hanesyddol Cymru.**[49] Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 1 LEADER yn y Strategaeth hon yn canolbwyntio ar gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ddiwylliant a threftadaeth.[50]<br>• Polisi ar **dargedu cymorth i ficrofusnesau**[51]ac **Arloesi Cymru**. Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 2 LEADER yn y Strategaeth hon yn cefnogi microfusnesau (ag elfen o dargedu sectorau) i arloesi mwy er mwyn gwella cynhyrchiant a chreu swyddi yn ardal wledig Sir Ddinbych.[52]<br>• **Y Strategaeth Bwyd a Diod[53] a'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod**. Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Themâu 1 a 2 LEADER yn y Strategaeth hon yn cefnogi cyrchu mwy |

[40] Er enghraifft: Yr ymrwymiad i ddatblygu cynlluniau adnewyddadwy cymunedol sydd 'yn hynod o ddefnyddiol mewn ardaloedd gwledig lle mae mynediad at y grid yn gyfyngedig'. Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mai 2009. Tudalen 39.
[41] Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth (2013-2020)
[42] Ibid. Hyrwyddo fel Blaenoriaeth Strategol, Tudalen 18.
[43] Ibid. Datblygu'r Cynnyrch fel Blaenoriaeth Strategol. Tudalen 19
[44] Ibid. Perfformiad Proffidiol fel Blaenoriaeth Strategol. Tudalen 23
[45] Ibid. Meithrin lle fel Blaenoriaeth Strategol. Tudalen 24
[46] Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 - 2017. Llywodraeth Cymru.
[47] Maes strategol 3 y strategaeth. Ibid. Tudalen 33.
[48] Maes strategol 4 y strategaeth. Ibid. Tudalen 37.
[49] Fel yr amlinellir yn 'Dyfodol ein Gorffennol'. Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru.
[50] Amlinellir fel nod penodol yn 'Dyfodol ein Gorffennol'. Ibid. Tudalen 3.
[51] Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ficrofusnesau. Ionawr 2012.
[52] Ibid. Tudalen 16. Mae'r adroddiad yn galw am gymorth i 'ddod yn fwy arloesol fel ffordd o wella cynhyrchiant a chreu swyddi'.
[53] Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol. 'Bwyd a Diod i Gymru'. Llywodraeth Cymru. 2009

| | |
|---|---|
| | o fwyd a diod yn lleol.[54]<br>• **Fframwaith Adfywio Llywodraeth Cymru.[55]** Bydd yr holl weithgareddau a gynigir yn y Strategaeth hon yn canolbwyntio ar integreiddio gweithgareddau ar draws rhaglenni fel y nodir yn Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.[56]<br><br>**Rhaglenni:**<br>• **Rhaglenni Gweithredu Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-2020** ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r **Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)**. Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 2 LEADER yn y Strategaeth hon yn integreiddio â phrosiectau a gaiff eu hariannu o dan Echel Blaenoriaeth 1 (Ymchwil ac Arloesi) ac Echel Blaenoriaeth 2 (Gwella Natur Gystadleuol Busnesau Bach a Chanolig) Rhaglen Weithredu'r ERDF. Er enghraifft, bydd cymorth i ficrofusnesau yn ardal wledig Sir Ddinbych yn canolbwyntio'n glir ar ymchwil cyn-fasnachol a phartneriaethau a rhwydweithiau lleol/is-ranbarthol. Bydd hyn yn integreiddio â Rhaglenni prif-ffrwd Busnes Cymru a **Cyllid Cymru** ar gyfer busnesau sy'n cychwyn, sy'n gweithredu'n genedlaethol. Yn yr un modd, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 3 LEADER yn y Strategaeth hon yn integreiddio'n glir â mentrau a ariannwyd o dan Echel Blaenoriaeth 3 Rhaglen Weithredu'r ERDF – gyda'r pwyslais yn ardal wledig Sir Ddinbych ar brofi hyfywedd technolegau adnewyddadwy ar raddfa fach a gaiff eu harwain gan y gymuned.<br>• **Busnes Cymru.** Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 2 LEADER yn y Strategaeth hon yn integreiddo'n agos â darparu gwybodaeth am gychwyn a thyfu busnesau, cyngor ac arweiniad trwy siop un stop Busnes Cymru.<br>• **Cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy** blaenllaw (e.e. Ynni'r Fro ac Arbed). Yn benodol, bydd y camau gweithredu a gynigir o dan Thema 4 LEADER yn y Strategaeth hon yn canolbwyntio ar brofi hyfywedd a dichonoldeb technolegau adnewyddadwy lleol, cymunedol i ategu'r gwaith a wneir ar lefel genedlaethol gan gynlluniau |

[54] Ibid. Amcan Strategol 1 'Cynyddu lefelau cyrchu bwyd a diod lleol yng Nghymru'. Tudalen 24.
[55] Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. 2013.
[56] Ibid. Tudalen 11 'Sefydlwyd y Rhaglen Datblygu Gwledig er mwyn diwallu anghenion ein hardaloedd gwledig a lled-wledig, gan gynnwys yr angen i'w hadfywio. Er hynny, mae mwy y gallwn ei wneud i integreiddio gweithgareddau ar draws y rhaglenni hyn, ac rydym yn benderfynol o wneud hynny.'

| | |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru.<br>• **Cymunedau 2.0.** Yn benodol, bydd camau gweithredu a gynigir o dan Thema 5 LEADER yn integreiddio'n agos â gwaith Cymunedau 2.0 i hybu cynhwysiant digidol. |
| Cynlluniau a gweithgareddau amrywiol y CDG y bydd LEADER yn cyfrannu atynt | Bydd y GGLl yn integreiddio â'r ddarpariaeth brif ffrwd ac yn llenwi bwlch oherwydd bydd yn datblygu prosiectau peilot sydd yn rhy newydd ac arloesol i eraill eu cefnogi ar eu pennau eu hunain. Bydd yn trin yr ardal fel labordy datblygu gwledig ac yn gweithio ar brosiectau arbrofol fel cynlluniau peilot cynaliadwy yn unig, y gellir eu prif-ffrydio maes o law. Y polisi yw defnyddio arian LEADER i "ysgogi", denu a dod â chyllid ychwanegol ar gyfer datblygu ymhellach a phrif-ffrydio cynlluniau peilot cynaliadwy. Ar lefel weithredol ac fel rhan o'r gwiriadau cymhwysedd, bydd y corff gweinyddol yn sicrhau bod cynigion prosiectau unigol yn ategu'r ddarpariaeth brif ffrwd bresennol ac yn osgoi unrhyw ddyblygu. |
| Mentrau/cynlluniau eraill yn ardal wledig Sir Ddinbych | Bydd LEADER yn integreiddio â mentrau eraill yn ystod 2014-2020, yn eu plith:<br>• Sir Ddinbych Ddigidol<br>• Grŵp Twristiaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy<br>• Cronfa Buddsoddi Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)<br>• Cist Cymunedol Clwyd<br><br>Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau y rhoddir pob ystyriaeth i'r mentrau sydd eisoes yn bodoli wrth gynllunio camau gweithredu a'u datblygu yn brosiectau. Hefyd, ystyrir sut y gall buddsoddiad LEADER integreiddio gyda'r rhain ac ychwanegu gwerth atynt (e.e. drwy gyfleoedd i fuddsoddi ar y cyd). Rydym yn rhagweld y bydd cynrychiolwyr rhai o'r mentrau hyn yn aelodau o'r GGLl gan ychwanegu cadernid i'r broses o sicrhau bod camau gweithredu LEADER yn integreiddio'n llawn.<br><br>Disgwylir y bydd cyfleoedd i integreiddio â darparwyr gwasanaethau lleol a mentrau hefyd yn dod i'r amlwg yn sgil:<br><br>• Adroddiad (sydd ar fin cael ei gyhoeddi) ar drafnidiaeth gwledig yn Sir Ddinbych.<br>• Cynlluniau tref ac ardal amrywiol (e.e. Strategaeth Ddatblygu Hiraethog).<br>• Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi yng Nghymru. |
| Prosiectau a gweithgareddau Grwpiau Gweithredu Lleol | Datblygwyd Strategaeth Datblygu Lleol Sir Ddinbych ochr yn ochr (h.y. gan yr un bobl a chan ddefnyddio'r un fethodoleg ymgynghori) â dogfennau Strategaethau Datblygu Lleol ardaloedd gwledig Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r ffaith fod |

| | |
|---|---|
| eraill | Cadwyn Clwyd yn gorff gweinyddol ar gyfer y tair ardal yn fantais strategol allweddol ac amlygodd y gwaith ymgynghori sy'n sail i ddogfennau'r Strategaethau hyn fod llawer o gysondeb o ran cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, yn ogystal â'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer buddsoddiadau LEADER.<br><br>Penderfynwyd defnyddio dull gweithredu strategol felly i 'becynnu' camau gweithredol tebyg – gan wneud y mwyaf o gyfleoedd i integreiddio ar draws y tair sir, a sicrhau'r effeithlonrwydd gorau wrth eu rhoi ar waith, gan gymryd ystyriaeth o wahaniaethau lleol ar yr un pryd o safbwynt y gwaith cyflenwi.<br><br>Bu GGLl Sir Ddinbych a GGLl Conwy yn cydweithio ac integreiddio'n barhau yn ystod cyfnod Rhaglen 2007-13. Bydd y gwaith hwn yn parhau ac mae'r astudiaeth ddiweddar i baratoi Strategaeth Ddatblygu ar gyfer ardal Hiraethog yn enghraifft ymarferol o'r ffordd y byddwn yn gweithredu yn y dyfodol.<br><br>Fel yn achos y rhaglen gyfredol, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gysylltu ac integreiddio â gweithgareddau Grwpiau Gweithredu Lleol eraill yng Nghymru trwy Rwydwaith LEADER Cymru. |
| Ffrydiau ariannu eraill gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd | Bydd y GGLl yn sicrhau bod buddsoddiadau LEADER yn ardal wledig Sir Ddinbych yn integreiddio â phrosiectau a ariennir gan gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) ac yn ychwanegu gwerth atynt. Bydd yn gwneud hyn drwy gynllunio prosiectau sydd yn cysylltu â mentrau a ariennir trwy rhaglenni ERDR ac ESF ac yn ychwanegu gwerth atynt (e.e. mewn perthynas â chymorth busnes a ffynonellau ynni adnewyddadwy). Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn gweithio'n agos ac yn trafod gyda Thimau Ewropeaidd Arbenigol lleol.<br><br>Hefyd, bydd cyfleoedd i integreiddio gyda'r Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon/Cymru newydd – yn benodol ym maes diwylliant a threftadaeth, a hefyd i ystyried technolegau ynni anewyddadwy arloesol. Byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd hyn i integreiddio wrth i'r Rhaglen Cymru-Iwerddon gael ei pharatoi'n derfynol.<br><br>Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i integreiddio gyda gwahanol gronfeydd y Loteri a byddwn yn ceisio buddsoddi ar y cyd, lle bo hynny'n briodol, er mwyn gwneud y mwyaf o werth am arian ac enillion ar fuddsoddiad. |

| | |
|---|---|
| **ADRAN 2 – CYLLID A CHYDYMFFURFIAETH** | |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) yn bwriadu cwrdd â'i ymrwymiadau cyllidol a chydymffurfiaeth. Rhaid i Grwpiau Gweithredu ddangos bod ganddynt gynlluniau ariannol cymwys ac y byddant yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol angenrheidiol. |
| Yn gysylltiedig â | Rhan o Adran 3.11 Canllawiau'r Strategaeth Mehefin 2014 (y gweddill i'w gynnwys dan Adran 4– Rheoli Gwaith) |

## 2.1 Rheoli a Gweinyddu

*(2,500 gair)*

**Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl)**

Mae Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl y GGLl wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

**Manylion aelodau'r GGLl arfaethedig gan gynnwys y sectorau a gynrychiolir**
Mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghyfansoddiad y GGLl. Bydd y GGLl yn cynnwys 12 aelod a fydd yn cynrychioli'r tri sector yn gyfartal, sef cynyrchiolwyr y sector cyhoeddus, sector preifat a'r sector gwirfoddol. Gwneir ymgais i sicrhau cydbwysedd rhyw o fewn y sectorau ac i ddewis aelodau o blith y rheini sy'n ymwneud â'r Strategaeth. Bwriedir i'r GGLl esblygu wrth iddo ddatblygu a chyrraedd nifer yr aelodau llawn.

**Cylch Gorchwyl y GGLl**
Mae manylion cylch gorchwyl y GGLl ynghlwm yng nghyfansoddiad y GGLl. Disgrifir swyddogaethau'r GGLl er mwyn cyd-fynd yn agos â'i brif ddyletswyddau o fonitro a chynnal y Strategaeth, gan ddewis gwaith monitro a gwerthuso perfformiad.

**Manylion y Corff Gweinyddol**
Mae'r GGLl wedi dewis Cadwyn Clwyd i weithredu fel partner arweiniol ym materion gweinyddol ac ariannol. Dewiswyd Cadwyn Clwyd oherwydd profiad helaeth y corff ym maes datblygu gwledig a rheoli rhaglenni a gweithgareddau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r GGLl yn ymwybodol fod Grwpiau Gweithredol Lleol cyfagos wedi dewis yr un partner arweiniol. Mae hwn yn benderfyniad ymwybodol gan bob GGLl er mwyn lleihau costau rheoli a rhedeg, a sicrhau dull gweithredu strategol ym maes adfywio gwledig yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Bydd y Corff Gweinyddol yn gyfrifol am gyflenwi'r rhaglen ar ran y GGLl a'i chwblhau yn llwyddiannus, a bydd yn sicrhau cywirdeb ariannol a chydymffurfiaeth wrth reoli a gweinyddu'r rhaglen. Bydd yn gyfrifol am gostau rhedeg a swyddogaethau bywiocáu.

Cwmni nid-er-elw cyfyngedig yw Cadwyn Clwyd a gaiff ei reoli gan fwrdd o gyfarwyddwyr sy'n cynrychioli trawsdoriad eang o sefydliadau cyhoeddus a phreifat

sy’n ymwneud ag adfywio gwledig yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae’r Bwrdd wedi cytuno i adolygu ei femorandwm ac erthyglau, ehangu ei ardal weithredu a bydd yn penodi cyfarwyddwyr addas mewn perthynas ag adfywio gwledig yn Wrecsam yn ogystal â sicrhau bod y cyfarwyddwyr yn adlewyrchu’r gweithgareddau a gynigir ar gyfer y rhaglen newydd.

Mae Cadwyn Clwyd wedi rheoli a rhoi ar waith amryw o fentrau o dan nifer o raglenni datblygu gwledig. Mae wedi cyflenwi prosiectau ar draws sawl sector, gan gynnwys amaethyddiaeth, bwyd-amaeth, twristiaeth ddiwylliannol, treftadaeth, twristiaeth werdd a thwristiaeth amaeth, prosiectau amgylcheddol mewn pentrefi, mentrau ecolegol, coedwigaeth a  choetiroedd, ynni adnewyddadwy, cadwraeth adeiladau a hyfforddiant a thechnoleg ddigidol.

Mae wedi darparu cymorth ar gyfer prosiectau peilot niferus megis datblygu menter gymdeithasol i ddosbarthu bwyd, cymorth i ddatblygu gwyliau bwyd.

Mae Cadwyn Clwyd hefyd wedi cefnogi mesurau adeiladu capasiti, prosiectau arloesol i liniaru llifogydd ac mae hefyd wedi arloesi wrth gyflwyno dulliau arloesol ar draws ei holl waith. Mae hefyd wedi ymwneud â phrosiectau traws-genedlaethol o dan gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Gweithdrefnau Gwerthuso a Monitro

Bydd Cadwyn Clwyd yn parhau i ddefnyddio ei ddulliau monitro a gwerthuso presennol a fabwysiadwyd yn ystod cyfnod y rhaglen gyfredol ac fe’u harchwiliwyd a’u gwirio’n gadarnhaol gan archwilwyr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Cymorth Technegol
Bydd Grŵp Partneriaeth Ymgynghorol Technegol Cadwyn Clwyd sy’n cynnwys aelodau o’r awdurdodau lleol, y cynghorau gwasanaethau gwirfoddol sirol a’r tîm Ewropeaidd Arbenigol yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer rhoi cyngor a bydd aelodau penodol yn rhoi cymorth gyda gweithdrefnau cymhwysedd a gwerthuso prosiectau.

Mae polisïau corfforaethol perthnasol Cadwyn Clwyd wedi’u cynnwys yn yr atodiadau isod.

**Byddwn yn cwrdd â gofynion y rheoliadau a’r canllawiau (Atodiad 4 Canllawiau’r Strategaeth) fel a ganlyn:**

Bydd y GGLl yn cynnwys cynrychiolwyr busnesau, awdurdodau lleol a’r trydydd sector; a bydd yn cynnwys cynrychiolydd o’r corff gweinyddol a ddewiswyd. Bydd llai na 49% o’r aelodau o’r sector cyhoeddus ond bydd y GGLl yn gwneud ymdrech i sicrhau aelodaeth gyfartal o’r tri sector ac yn ceisio cael cydraddoldeb rhyw. Bydd yn chwilio am gynrychiolaeth deg o blith y grwpiau penodol a gaiff eu targedu gan y strategaeth datblygu lleol, megis pobl ifanc, grwpiau difreintiedig, grwpiau sy’n agored i niwed a grwpiau o’r ucheldir ac ati.

Bydd aelodaeth y GGLl yn esblygu er mwyn cwrdd ag anghenion yr ardal sy’n newid a blaenoriaethau’r strategaeth. Bydd y GGLl yn cynnwys 12 aelod, 4 o bob sector

ond er mwyn caniatáu i'r aelodau ddatblygu, ni fydd y GGLl yn recriwtio uchafswm yr aelodau yn y lle cyntaf.

Bydd y GGLl yn cynnal proses adolygu flynyddol i benodi cadeirydd. Os bydd mwy nag un ymgeisydd, penodir y cadeirydd ar sail pleidlais. Prif swyddogaeth y GGLl yw datblygu a rhoi'r Strategaeth Datblygu Lleol ar waith er mwyn buddsoddi arian LEADER o Raglen Datblygu Gwledig Cymru yn yr ardal wledig leol. Mae'r GGLl wedi penodi corff gweinyddol i roi cymorth technegol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth rheoleiddio ac i gyflenwi'r rhaglen.

Bydd y GGLl yn sicrhau bod y Strategaeth yn ddogfen 'fyw' a bydd yn ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn briodol i ardal y GGLl.

Bydd y GGLl yn:

- Gwella capasiti pobl leol i ddatblygu a chynnal gweithgareddau gan gynnwys meithrin eu gallu i reoli prosiectau.

- Llunio gweithdrefn ddethol a meini prawf amcanion nad yw'n gwahaniaethu ac sy'n dryloyw ar gyfer dethol gwaith, ac sy'n osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau.

- Sicrhau bod o leiaf 51% o'r pleidleisiau mewn penderfyniadau dethol yn cael eu bwrw gan bartneriaid nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus, a chaniatáu dethol trwy drefn ysgrifenedig.

- Sicrhau cydlyniad gyda'r strategaeth datblygu lleol wrth ddethol gwaith, trwy flaenoriaethu'r gwaith hwnnw'n unol â'i gyfraniad i gwrdd ag amcanion a thargedau'r strategaeth honno.

- Paratoi a chyhoeddi galwadau am gynigion neu drefn gyflwyno prosiect parhaus, gan gynnwys diffinio meini prawf dethol.

- Derbyn ac asesu ceisiadau ar gyfer cymorth a dilyn y prosesau ym mholisi dethol a meini prawf y prosiect.

- Dethol gwaith a gosod maint y gefnogaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, cyflwyno'r cynigion gerbron y corff sy'n gyfrifol er mwyn dilysu'n derfynol ei fod yn gymwys, cyn ei gymeradwyo a sicrhau y caiff prosiectau eu dethol dim ond ar ôl iddynt fodloni profion cydymffurfiaeth y corff gweinyddol.

- Monitro'r broses o weithredu'r strategaeth datblygu lleol a'r gwaith a gefnogir a chynnal gweithgareddau gwerthuso penodol yn gysylltiedig â'r strategaeth honno.

- Adrodd yn flynyddol ar fonitro a gwerthuso i Lywodraeth Cymru ac ymateb i geisiadau Llywodraeth Cymru ac unrhyw gamau unioni angenrheidiol.

- Adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth gyrraedd targedau ariannol a monitro a gytunwyd

**Manylion gweithdrefnau cydymffurfiaeth a phrosesau sy’n dangos sut y caiff dyletswyddau eu gwahanu, systemau adrodd a chapasiti i gadw trywydd archwilio clir ar gyfer gwariant a dangosyddion**.

Mae Cadwyn yn gweithredu prosesau cydymffurfio cynhwysfawr er mwyn cwrdd â rheolau ariannu’r Undeb Ewropeaidd. Mae’r rhain yn cynnwys adroddiadau prosiect llawn chwarterol, trywydd archwilio ar gyfer gwariant a dangosyddion, gweithdrefnau cydymffurfio personél ac arwahanu dyletswyddau rhwng swyddogion prosiect a swyddogion ariannol mewn perthynas â chaffael ac awdurdodi taliad.

Mae dyletswyddau’r GGLl a’i gorff gweinyddol wedi’u harwahanu’n glir.
Mae gan y GGLl strategaeth ar gyfer dethol gweithgaredd y bydd yn gyfrifol am ei werthuso a’i fonitro, ac adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Gymru ar ei gyflawniad wrth gyrraedd targedau ariannol a monitro.

Fel y ‘corff gweinyddol’, Cadwyn yw’r partner arweiniol ym materion ariannol a gweinyddol ac sy’n gyfrifol am gyflenwi’r rhaglen ar ran y GGLl. Cadwyn sydd â chyfrifoldeb dros benderfynu ar gymhwysedd prosiectau, proffilio ariannol a rheoli dyraniadau dangosol ac am gyfrifo incwm a gwariant y GGLl, a chadw cofnodion manwl. Rhaid i’r GGLl adeiladu capasiti cynrychiolwyr lleol i ddatblygu a rhoi gweithrediadau ar waith, datblygu gweithdrefn ddethol dryloyw nad yw’n gwahaniaethu a sicrhau cydlyniad â’r Strategaeth Datblygu Lleol wrth ddethol gweithrediadau. Rhaid iddo wneud galwadau am gynigion a ddylai gynnwys meini prawf dethol.

Cadwyn sy’n gyfrifol am y costau rhedeg a’r swyddogaethau bywiocáu. Rhaid i Cadwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn dryloyw ac yn agored wrth ddatblygu cynigion prosiectau a’u cyflwyno i’r bartneriaeth i’w cymeradwyo o bosibl. Rhaid i Cadwyn weithio ar y materion cymhwysedd gyda’r prosiectau arfaethedig cyn eu cyflwyno i’r GGLl, gan gynnwys cymhwysedd y prosiect, Cymhorthion y Wladwriaeth ac unrhyw safonau gofynnol a rhesymoldeb y gweithgaredd arfaethedig.

Rhaid i’r GGLl asesu ceisiadau, a dewis gweithrediadau, gan bennu faint o adnoddau sydd ar gael a chyflwyno cynigion i’r ‘corff sy’n gyfrifol am wirio cymhwysedd yn y pen draw’, lle bo hynny’n berthnasol, hynny yw, Cadwyn.

**Manylion prosesau dethol, gwerthuso a chymeradwyo prosiectau a gyflwynir i’r GGLl**

Mae polisi dethol mabwysiedig y GGLl wedi ei gynnwys yn yr atodiad.

**Manylion datgan buddiannau a rheoli gwrthdaro buddiannau**
Mae cyfansoddiad y GGLl yn darparu’r manylion a ganlyn ar gyfer rheoli a chofnodi datganiadau o fuddiant.

Gwrthdaro buddiannau:
a) Bydd y GGLl yn sefydlu gweithdrefnau ysgrifenedig yn ymdrin â gwrthdaro buddiannau a fydd yn gofyn am ddatganiadau a gaiff eu nodi yng nghofodion cyfarfodydd ac yn cynnwys ymatal pleidlais a datganiadau ysgrifenedig.

b) Os oes gan aelod o’r Bartneriaeth ddiddordeb ariannol yn unrhyw fater dan ystyriaeth mewn cyfarfod o’r Bartneriaeth, rhaid iddo ef/hi ddatgan ei ddiddordeb/diddordeb a gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a phan wneir penderfyniad ar y mater hwnnw. Dylid datgan diddordebau nad ydynt yn rhai ariannol, ond nid oes yn rhaid i’r aelod adael y cyfarfod.

## ADRAN 3 - CYFLENWI

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) yn bwriadu cyflenwi ei amcanion datganedig ar lawr gwlad. Dylai fod gan y GGLl gynllun clir sy'n cysylltu'r canlyniad, yr allbynnau sy'n cyflenwi'r canlyniad, y gweithgareddau a gynhelir i gyflawni'r allbynnau, sut a phryd y cynhelir y gweithgareddau hynny, a phwy fydd yn gyfrifol am eu cyflenwi. |
| Yn gysylltiedig ag | Adrannau 3.4 (gan gynnwys y tabl rhesymeg ymyrryd), 3.8, 3.9, 3.10 a 3.12 Canllawiau'r Strategaeth Datblygu Lleol, Mehefin 2014 |

### 3.1 Disgrifiad o'r strategaeth a hierarchaeth yr amcanion

*(2,500 gair (naratif) ynghyd â hyd at 10 tudalen A4 ar ffurf Tabl Rhesymeg Ymyrryd (darperir templad)*


**Disgrifiad o'r modd y gall y GGLl wella'r ardal**

Bydd y GGLl yn gwella amodau yn ardal wledig Sir Ddinbych drwy'r gweithgareddau a ganlyn:

- Cael dealltwriaeth glir o gryfderau, asedau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ardal fel yr amlygwyd yn y broses ymgynghori gynhwysfawr sy'n sail i'r Strategaeth hon.
- Cael perchnogaeth glir o'r weledigaeth strategol sy'n nodi'r hyn sydd angen ei gyflawni.
- Ymrwymo i set o amcanion penodol sy'n cysylltu blaenoriaethau lleol, is-ranbarthol a chenedlaethol (y cyd-destun strategol a amlinellwyd yn Adran 1.2 uchod) â'r anghenion a chyfleoedd.
- Asesu, dethol a goruchwylio'r gwaith o roi nifer bach o gamau gweithredu buddsoddi arloesol ar waith, a gaiff eu gyrru gan y gymuned ac sydd â phwyslais strategol (a lle bo hynny'n briodol yn is-ranbarthol) a fydd yn creu allbynnau cadarnhaol.
- Dwyn ynghyd rhanddeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i rannu gwybodaeth, arfer da ac arbenigedd.

**Hierarchaeth Amcanion LEADER yn ardal wledig Sir Ddinbych**

Mae'r strategaeth ar gyfer GGLl ardal wledig Sir Ddinbych yn seiliedig ar yr hierarchaeth amcanion a nodir isod, sy'n cynnwys **gweledigaeth strategol**, **pum amcan penodol** a **phecyn o gamau gweithredu SMART** a gaiff eu gyrru gan yr anghenion a'r cyfleoedd a nodwyd ac sy'n gysylltiedig â hwy.




Mae’r dull strategol a gaiff ei fabwysiadu yn seiliedig ar wneud y mwyaf o’r posibiliadau ar gyfer cysylltiadau, synergeddau ac arbedion effeithlonrwydd is-ranbarthol rhwng ardal wledig Sir Ddinbych, ardal wledig Sir y Fflint ac ardal wledig Wrecsam. Mae’r gwaith ymgynghori cynhwysfawr a wnaed i baratoi dogfennau’r Strategaeth Datblygu Lleol ym mhob un o’r siroedd hyn wedi dangos fod llawer iawn o gysondeb o ran anghenion datblygu, cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi arian LEADER.

Yn ystod y broses ymgynghori, dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn unfrydol o blaid strategaeth sy’n hwyluso buddsoddiad ar draws pob un o 5 thema LEADER i fynd i’r afael ag anghenion a chyfleoedd yn ardal wledig Sir Ddinbych a nodwyd yn sgil y dadansoddiad SWOT. Cynlluniwyd yr amcanion penodol a nodir isod felly er mwyn cysylltu â phob un o themâu Leader.

Mae’r tabl rhesymeg ymyrryd cysylltiedig yn ‘mapio’’r camau gweithredu a gaiff eu cefnogi ac yn dangos sut y maent yn cysylltu ag anghenion datblygu a chyfleoedd (a nodwyd yn ystod y dadansoddiad SWOT) a’r amcanion penodol a nodir isod.

**Gweledigaeth strategol ar gyfer ardal wledig Sir Ddinbych**

*Mae ardal wledig Sir Ddinbych yn ardal o harddwch naturiol eithriadol sydd â threftadaeth gyfoethog ac asedau diwylliannol nodedig. A hithau'n rhan allweddol o economi ehangach gogledd Cymru ac yn agos i ddinasoedd mawr gogledd-orllewin Lloegr, mae ardal wledig Sir Ddinbych yn lle bywiog, cynhwysol, hynod ddeniadol a chynaliadwy i fyw, dysgu, gweithio ac ymweld â hi.*

Yr **amcanion penodol** yw buddsoddi arian LEADER i adeiladu ar gryfderau presennol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd fel bod:

| | |
|---|---|
| AP1 | Mwy o bobl yn dymuno ymweld ag ardal wledig Sir Ddinbych ac aros yn hirach i fwynhau'r amgylchedd, diwylliant a threftadaeth rhagorol. |
| AP2 | Mwy o entrepreneuriaid yn ardal wledig Sir Ddinbych yn rhoi cynnig ar syniadau newydd ac yn dechrau a thyfu busnesau bach cynaliadwy a gaiff eu cefnogi'n dda ac sy'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'i gilydd. |
| AP3 | Gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, effeithlon o safon ar gael yn ardal wledig Sir Ddinbych gan rymuso mentrau cymdeithasol a busnesau preifat i chwarae rhan weithredol a chynaliadwy i gynllunio a chyflenwi'r gwasanaethau hynny. |
| AP4 | Technolegau adnewyddadwy arloesol, cynaliadwy sy'n cael eu croesawu a'u hystyried ymhellach gan gymunedau yn ardal wledig Sir Ddinbych a fydd yn mwynhau'r buddion yn uniongyrchol. |
| AP5 | Technoleg yn galluogi pobl a busnesau yn hytrach na'u cyfyngu i gael mynediad at wasanaethau a gwella cynhyrchiant yn ardal wledig Sir Ddinbych. |

**Camau Gweithredu SMART**
Thema 1 – Ychwanegu Gwerth at Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

| Cam gweithredu Smart | Amcan Penodol | Amlinelliad o'r Cam Gweithredu |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| CGS1 | AP1 | Datblygu, gwella a manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar werth masnachol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy er budd pobl, cymunedau a busnesau yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Hyrwyddo a marchnata'r AHNE mewn ffordd arloesol fel atyniad a chyrchfan i ymwelwyr ar lefel is-ranbarthol.<br>• Treialu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r AHNE i farchnadoedd arbenigol, gwerth uchel gan gynnwys seiclo, cerdded a gweithgareddau awyr agored eraill.<br>• Treialu mecanweithiau cymorth arloesol sy'n cefnogi mentrau sy'n dibynnu ar yr AHNE fel atyniad allweddol i gydlynu a rhwydweithio'n fwy effeithiol ar lefel is-ranbarthol.<br>• Gwella a datblygu agweddau ar yr AHNE ei hun (e.e.llwybrau, lonydd, seilwaith ymwelwyr, rheoli a dehongli).<br><br>Byddai hwn yn brosiect cydweithredol ar draws Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a byddai hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gydweithio ar lefel ehangach yn y Deyrnas Unedig ac yn draws-genedlaethol. |
| CGS2 | AP1 | Datblygu, gwella a manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar werth masnachol a hamdden Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas ar gyfer pobl, cymunedau a mentrau yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Hyrwyddo a marchnata'r Safle Treftadaeth y Byd mewn ffordd arloesol fel atyniad a chyrchfan i ymwelwyr ar lefel is-ranbarthol.<br>• Treialu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd i ddarpar-ymwelwyr.<br>• Treialu mecanweithiau cymorth arloesol i gefnogi mentrau sy'n dibynnu ar y Safle Treftadaeth y Byd fel atyniad allweddol i gydlynu a rhwydweithio'n fwy effeithiol ar lefel is-ranbarthol.<br>• Gwella a datblygu agweddau ar y Safle Treftadaeth y Byd ei hun (e.e. seilwaith ymwelwyr, rheoli a dehongli).<br><br>Byddai hwn yn brosiect cydweithredol ar draws Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a byddai hefyd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ei gwneud yn bosibl i gydweithio ar lefel ehangach yn y Deyrnas Unedig ac yn draws-genedlaethol. |
| CGS3 | AP1 | Datblygu hunaniaeth ac adnoddau lleol drwy becyn cydlynol ac arloesol o fuddsoddiadau mewn ymdeimlad o le ar draws ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Cefnogi astudiaethau dichonoldeb lleol a chynlluniau i archwilio a manteisio'n economaidd ar dreftadaeth, diwylliant ac adnoddau naturiol, gan gynnwys bwyd a choedwigaeth.<br>• Buddsoddi mewn deunyddiau dehongli arloesol, arwyddion, digwyddiadau yn y gymuned, arddangosfeydd a gwyliau.<br>• Treialu prosiectau treftadaeth a hanes newydd sy'n annog cydweithio gyda grwpiau lleol ac academyddion.<br>• Buddsoddi mewn gwasanaethau eco-system arloesol â phwyslais penodol ar yr ucheldir.<br>• Rhoi gweithgareddau sy'n pontio rhwng y cenedlaethau ar brawf (gan gynnwys trwy dechnoleg ddigidol) sy'n hwyluso trosglwyddo gwybodaeth am ardal wledig Sir Ddinbych. |

| **Camau Gweithredu SMART**<br>Thema 2 – Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu Smart** | **Amcan Penodol** | **Amlinelliad o'r Cam Gweithredu** |
| CGS4 | AP2 | Darparu cymorth wedi'i deilwra (cyn-fasnachol) i helpu entrepreneuriaid lleol 'roi prawf' ar hyfywedd cysyniadau a syniadau busnes newydd mewn ffordd gefnogol ac amgylchedd sy'n rheoli risg. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Archwilio prawf o gysyniad a dichonoldeb syniadau busnes newydd. Treialu mynediad at 'ganolfannau' entrepreneuriaeth lleol yn cynnig cyfleusterau hanfodol (e.e. mynediad at fand llydan cyflym a chyfleusterau ymchwil a datblygu).<br>• Hwyluso mynediad at farchnadoedd (e.e. trwy siopau 'pop-up' neu ofod mewn digwyddiadau masnach neu wyliau) i 'brofi'r galw.<br>• Darparu mynediad at fentora ac arweiniad pellach gan gysylltu entrepreneuriaid yn uniongyrchol â Busnes Cymru ac Asiantaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Menter Sir Ddinbych.<br>• Galluogi pobl ifanc i gynorthwyo â'r gwaith o brofi hyfywedd syniad (cyn-fasnachol) a hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith ieuenctid.<br>• Comisiynu a threialu'r gwaith o ddatblygu cynnyrch bwyd newydd a chynnyrch arall. |
| CGS5 | AP2 | Darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer busnesau gan gynnwys mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu yn y sectorau twristiaeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth, hamdden, llety, adwerthu a bwyd i wella cysylltiadau a rhwydweithio wyneb yn wyneb a digidol. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Sefydlu a hwyluso rhwydweithiau is-ranbarthol (h.y. yn cynnwys Sir y Fflint a Wrecsam) i ddod â busnesau yn y sectorau blaenoriaeth allweddol hyn ynghyd gyda'r nod o ysgogi cynnydd yn y cadwyni cyflenwi rhyng-fasnachol a lleol.<br>• Adeiladu ar lwyddiant ffeiriau a gwyliau bwyd lleol presennol a chynnig cyfle i gynhyrchwyr newydd gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn i lansio cynnyrch newydd.<br>• Treialu cynlluniau cyflenwi lleol cydweithredol newydd – gan alluogi cynhyrchwyr lleol i gyrraedd dewis ehangach o ddefnyddwyr masnachol a phreifat mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.<br>• Treialu datblygu rhwydwaith bach o fentoriaid yn y sector bwyd a diod er mwyn helpu pobl ifanc i gael gwaith neu ddechrau busnes yn y sector bwyd a diod yn ardal wledig Sir Ddinbych.<br>• Adeiladu ar fenter Sir Ddinbych Ddigidol a'i hehangu o bosibl, gan dreialu nodweddion newydd ac arloesol ar gyfer y wefan sydd eisoes yn bodoli.<br>• Darparu cyngor a chymorth rhagweithiol ar sut y gall yr iaith Gymraeg gynnig buddion masnachol – annog busnesau i gofleidio manteision dwyieithrwydd drwy rhwydweithio wyneb yn wyneb ac yn ddigidol. |

**Camau Gweithredu**
Thema 3 – Archwilio ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaethau lleol anstatudol

| **Cam Gweithredu Smart** | **Amcan Penodol** | **Amlinelliad o'r Cam Gweithredu** |
|---|---|---|
| CGS6 | AP3 | Cefnogi datblygiad a galluoedd cymunedau lleol, grwpiau cymunedol (gan gynnwys grwpiau o |

| | | |
|---|---|---|
| | | ficrofusnesau), sefydliadau a mentrau cymdeithasol i gyflenwi gwasanaethau lleol. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Trosglwyddo a gwreiddio gwybodaeth, sgiliau a chyngor i sefydlu modelau priodol (e.e. grwpiau cydweithredol) a chefnogi mynediad at gronfeydd cyllid priodol.<br>• Cynghori ar brosiectau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) a hwyluso eu datblygiad er mwyn cynnal gwasanaethau ac adfywio /rhoi bywyd newydd i adeiladau lleol nad ydynt yn cael eu defnyddio ac asedau eraill.<br>• Cefnogi datblygiad cynaliadwy a pharhad canolfannau cymunedol (megis swyddfeydd post, llyfrgelloedd, siopau, caffis a thafarndai) o dan fodelau perchnogaeth/busnesau cymdeithasol arloesol.<br>• Cefnogi cymunedau a busnesau lleol i berchnogi a chymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau lleol pwysig sydd mewn perygl o gael eu cau neu'u canoli.<br>• Hwyluso cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant i gael profiad a datblygu sgiliau drwy wirfoddoli gyda mentrau cymdeithasol. |
| CGS7 | AP3 | Cefnogi sefydlu a thyfu cynlluniau trafnidiaeth gymunedol arloesol, carbon isel. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Cynghori a chefnogi cymunedau lleol ar sefydlu/treialu modelau trafnidiaeth gymunedol yac atebion.<br>• Cynorthwyo grwpiau trafnidiaeth i gael mynediad at gyllid a buddsoddiad priodol.<br>• Treialu cynlluniau trafnidiaeth gymunedol sy'n mynd i'r afael ag arwahaniad cymdeithasol a chynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i gael mynediad at wasanaethau, cynlluniau sy'n helpu i ddatblygu/sefydlu rhwydweithiau cyflenwi lleol ar gyfer cynnyrch lleol (cysylltiadau â CGS2) a chynlluniau sy'n helpu pobl ifanc i gyrraedd y coleg neu'r gwaith. |
| **Camau Gweithredu**<br>Thema 4 – Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymunedol | | |
| **Cam Gweithredu Smart** | **Amcan Penodol** | **Amlinelliad o'r Cam Gweithredu** |

| | | |
|---|---|---|
| CGS8 | AP4 | Darparu cymorth penodol wedi'i deilwra i helpu cymunedau a mentrau cymdeithasol archwilio ffynonellau ynni adnewyddadwy. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth arbenigol, cyngor ac arweiniad ar ddau fath o dechnoleg adnewyddadwy (e.e. treulio anaerobig ym maes amaethyddiaeth, prosiectau ynni hydro a biomas), mentrau effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd.<br>• Cefnogi astudiaethau dichonoldeb a hyfywedd cychwynnol i archwilio a threialu pa mor briodol ac addas yw technolegau adnewyddadwy mewn amgylchiadau/lleoliadau penodol.<br>• Cynorthwyo â'r gwaith o brofi cysyniad a threialon ar gyfer prosiectau technoleg adnewyddadwy sy'n berchen i'r gymuned ar raddfa ficro y gellid eu hehangu (pe baent yn llwyddiannus). |
| CGS9 | AP4 | Darparu gwasanaeth cynghori lleol er mwyn cynorthwyo grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i ailfuddsoddi mewn ffordd gynaliadwy unrhyw refeniw a ddaw yn sgil ffynonellau ynni adnewyddadwy (e.e. gosodiadau Solar Ffotofoltäig neu gynlluniau hydro). Byddai hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau peilot i gefnogi a datblygu consortia prynu lleol er mwyn sicrhau ynni pris is. |
| **Camau Gweithredu**<br>Thema 5 – Datblygu Technoleg Ddigidol | | |
| **Cam Gweithredu Smart** | **Amcan Penodol** | **Amlinelliad o'r Cam Gweithredu** |
| CGS10 | AP5 | Darparu cymorth penodol ac wedi'i deilwra gyda'r nod o wella'r ffordd y mae mentrau yn ardal wledig Sir Ddinbych yn defnyddio technoleg ddigidol. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol a sut y gellir eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo, er mwyn eu gwneud yn fwy cystadleuol a chael mwy o fusnes.<br>• Darparu cymorth rhagweithiol i annog mentrau i hysbysebu (trwy'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill) eu nwyddau /gwasanaethau, digwyddiadau allweddol, cynigion ac ati.<br>• Darparu gwybodaeth a chyngor a meithrin |

| | | |
|---|---|---|
| | | capastiti ynglŷn â sut y gall technoleg ddigidol wella effeithlonrwydd ac e-ddiogelwch i fusnesau a mentrau cymdeithasol.<br>• Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a threialu 'apiau' a gwefannau penodol er mwyn cynorthwyo partneriaethau busnes, rhwydweithiau a chydweithio drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. |
| CGS11 | AP5 | Datblygu canolfannau rhagoriaeth digidol yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:<br>• Darparu mynediad at gysylltiad band eang cyflym, dibynadwy a lle i weithio ar gyfer trigolion, ymwelwyr a microfusnesau a mentrau cymdeithasol lleol.<br>• Treialu gweithgareddau cynhwysiant digidol newydd – gyda phwyslais arbennig ar gamau gweithredu sy'n pontio rhwng y cenedlaethau ac sy'n annog y defnydd o TGCh. |

**Sut y mae gweithgareddau a phrofiad blaenorol wedi dylanwadu ar y strategaeth a'r dull gweithredu**

Mae'r gwaith o gyflenwi LEADER a gweithgareddau ehangach y CDG yn ardal wledig Sir Ddinbych wedi dylanwadu ar gynllun y strategaeth mewn tair prif ffordd:

Yn gyntaf, mae buddsoddiadau mewn cynlluniau lleol (e.e. cynlluniau tref, strategaethau ardal ac astudiaethau dichonoldeb) yn rhoi llwyfan gwych ar gyfer buddsoddi arian LEADER dros y saith mlynedd nesaf. Mae'r cynlluniau yn seiliedig ar waith ymgynghori helaeth gyda'r gymuned ac mae'r camau gweithredu a gynigir ynddynt felly yn cynnwys elfen gref o bechnogaeth ac ymrwymiad lleol. Yn ystod Rhaglen 2007-2013, canfu gwerthusiad o brosiectau Echel 3 a 4 yn Sir Ddinbych fod 'prosiectau yn cynrychioli'r cymysgedd priodol o weithgareddau sy'n dangos cysylltiadau clir a rhesymegol â'r themâu strategol a nodir yn Strategaeth Datblygu Lleol Sir Ddinbych'.[57]

Yn ail, adeiladwyd cryn arbenigedd yn nhermau rôl bywiocáu LEADER – o fewn GGLl Sir Ddinbych a Chadwyn Clwyd fel y corff gweinyddol. Defnyddiwyd y corff corfforaethol hwn o wybodaeth ynglŷn â'r 'hyn sy'n gweithio' mewn ffordd adeiladol i lywio a beirniadu datblygiad y strategaeth hon ar bob cam allweddol.

Canfu'r gwerthusiad o brosiectau Echel 3 ac Echel 4 yn Sir Ddinbych fod 'staff a oedd ynghlwm â chyflenwi prosiectau Rownd Un y Cynllun Busnes wedi bod o

[57] Cynllun Datblygu Gwledig Sir Ddinbych. Gwerthusiad o Gynllun Busnes Prosiectau Rownd Un Echel 3 ac Echel 4. Adroddiad Terfynol i Gyngor Sir Ddinbych a Phartneriaeth Cynllun Datblygu Gwledig Sir Ddinbych. Old Bell 3 Cyf. Hydref 2011. Tudalen 4.

ansawdd uchel ac roedd eu brwdfrydedd a'u cymhelliad wedi bod yn allweddol wrth gyflenwi'r CDG yn effeithiol yn Sir Ddinbych'.[58] Ymhellach, nododd y gwerthusiad fod 'cysylltiadau mewnol da gyda'r ddau brif sefydliad sy'n noddi (Cadwyn Clwyd a Chyngor Sir Ddinbych). Mae hyn wedi hwyluso cyfnewid syniadau ac ymdeimlad o dîm wrth gyflenwi'r prosiectau'.[59]

Yn drydydd, un wers bwysig sydd wedi ei chynnwys yng nghynllun y Strategaeth hon ac a fydd yn treiddio i'r broses o roi'r camau gweithredu hyn ar waith, yw'r angen i wreiddio capasiti a gallu ymhlith grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a busnesau er mwyn osgoi dibynnu ar arian prosiectau LEADER neu'r CDG a staff, ac annog hunangynhaliaeth a chynaliadwyedd. Mae hyn yn elfen ganolog o'r strategaeth ar gyfer gweithredu pob agwedd ar raglen LEADER. Fe wnaeth y gwerthusiad o brosiectau Echel 3 a 4 yn Sir Ddinbych argymell 'y dylai partneriaid sy'n cyflenwi prosiectau …gymryd camau rhagweithiol i leihau dibyniaeth y prosiectau ar aelodau staff unigol.'[60]

## 3.2 Cydweithio a Rhwydweithio

*(1,000 gair; hyd at 500 i ganolbwyntio ar weithgareddau paratoadol)*

Mae LEADER eisoes wedi bod yn weithredol yn Sir Ddinbych gan esgor ar lawer o brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd – o fewn strwythur y GGLl a hefyd o fewn Cadwyn Clwyd, y corff gweinyddol.

O safbwynt cydweithio a rhwydweithio, bydd y pwyslais felly ar **droi arferion addawol yn weithredoedd cyffredin**. Yn y cyd-destun hwn, rhagwelir y bydd nifer o fentrau penodol yn gweithredu ar draws Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a gyda Grwpiau Gweithredu Lleol eraill mewn rhannau o'r Deyrnas Unedig ac ar draws yr Undeb Ewropeaidd yn ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trosglwyddo'r camau gweithredu addawol yn ymwneud ag Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – (gweler CGS1 uchod) gan gysylltu ag ardaloedd AHNE eraill er mwyn rhannu, dysgu ganddynt a datblygu camau gweithredu cyffredin er budd economi, cymdeithas ac amgylchedd yr ardaloedd gwledig.

- Trosglwyddo camau gweithredu addawol yn ymwneud â Safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte – (gweler CGS2 uchod) gan gysylltu â Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill er mwyn rhannu, dysgu ganddynt a datblygu camau gweithredu cyffredin er budd economi, cymdeithas ac amgylchedd yr ardaloedd gwledig. Mae hyn yn gymwys i Sir Ddinbych a Wrecsam.

- Trosglwyddo camau gweithredu addawol yn ymwneud â Strategaeth Hiraethog i ddarparu cymorth ar gyfer cymunedau yr ucheldir ar y cyd â GGLl Conwy a datblygu camau gweithredu cyffredin er budd economi, cymdeithas

[58] Ibid. Tudalen 6.
[59] Ibid. Tudalen 7.
[60] Ibid. Tudalen 9. Argymhelliad 2.

ac amgylchedd ardaloedd gwledig.

- Adnabod Grwpiau Gweithredu Lleol mewn ardaloedd eraill sy'n ceisio canolbwyntio ar ddarparu cymorth wedi'i deilwra (cyn-fasnachol) er mwyn helpu entrepreneuriaid lleol i 'roi prawf' ar hyfywedd cysyniadau a syniadau busnes newydd mewn amgylchedd gefnogol sy'n rheoli risg (gweler CGS4 uchod).

O ran gwaith paratoadol, bydd hyn yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ganlyn:

- Cryfhau ac ehangu'r berthynas waith wych rhwng y Grwpiau Gweithredu Lleol yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a hefyd yng Nghonwy.

- Datblygu ac ehangu ymhellach y rhwydweithiau is-ranbarthol sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys Rhwydwaith Stiwdios Agored Gogledd Cymru, 'Cerdded gydag Offa' ynghyd ag ehangu'r cysyniad 'y tafarn yw'r galon' i weithio gydag amryw o ficrofusnesau gwledig fel canolfannau cymunedol posibl.

- Cymryd rhan a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan Rwydweithiau LEADER Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd i greu cysylltiadau gyda Grwpiau Gweithredu Lleol sydd â diddordebau a phwyslais strategol tebyg.

**3.3 Disgrifiad o Arloesedd**

*(1,000 gair – dylid cysylltu â'r camau gweithredu a ddisgrifiwyd yn Adran 3.1 uchod a chyfeirio at benawdau'r pwyntiau bwled yn Adran 3.9 Canllawiau'r Strategaeth)*

Bydd gweithgaredd y GGLl yn cynnig mecanwaith cydlynol ac integredig ar lawr gwlad ar gyfer ysgogi galw arloesol a chreadigol gan gymunedau lleol a fydd yn cwrdd ag anghenion tymor hir yr ardal wledig. Bydd dyheadau creadigol unigolion, grwpiau, cymunedau daearyddol a chymunedau sy'n rhannu diddordebau, yn gweithredu fel llwyfan ar gyfer datblygu prosiectau a chamau gweithredu. Byddir yn meithrin agweddau entrepreneuraidd a'u cryfhau drwy beiriant creadigol y broses LEADER a'i methodoleg. Bydd y GGLl yn annog arloesi – yn hwyluso arbrofi, treialu cyn-fasnachol a rhoi prawf ar ddulliau gweithredu 'newydd', prosesau 'newydd' a chynnyrch 'newydd'. Gwneir ymdrechion rhagweithiol i annog unigolion nad ydynt wedi cymryd rhan o'r blaen yng ngweithgareddau'r CDG er mwyn annog dulliau newydd o feddwl a syniadau newydd. Bydd hyn yn adeiladu ar y broses ymgynghorol sy'n sail i ddatblygiad y Strategaeth hon.

Mae datblygu dulliau, prosesau a chynnyrch arloesol yn elfen allweddol o'r Strategaeth hon. Cyflawnir hyn drwy'r gweithgareddau a ganlyn:

- Gweithredu mewn ffordd arloesol a chydweithio (trwy'r camau gweithredu SMART a ddisgrifiwyd o dan Amcan Penodol 1) er mwyn ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol, meithrin hunaniaeth leol a threialu camau gweithredu ar y cyd sydd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol a diwylliannol.

- Helpu microfusnesau a mentrau cymunedol i adnabod a marchnata elfennau unigryw eu cynnyrch, gwasanaethau a'r ardal leol, gan ychwanegu gwerth a hyfywedd yn gyffredinol; datblygu rhwydweithiau busnes a threialu atebion sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol. Cyflawnir hyn yn sgil y camau gweithredu SMART a amlinellwyd o dan Amcan Penodol 2.

- Cefnogi'r gwaith o dreialu canolfannau/canolbwyntiau cymunedol i ddarparu atebion a fydd yn galluogi pobl leol i gael mynediad at wasanaethau, datblygu clystyrau o ficrofusnesau a mentrau cymdeithasol i dreialu'r ddarpariaeth o wasanaethau i gymunedau lleol. Cyflawnir hyn yn sgil y camau gweithredu SMART a amlinellwyd o dan Amcan Penodol 3.

- Treialu atebion newydd i newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu ynni cynaliadwy/adnewyddadwy ac yna prif-ffrydio'r dulliau hyn (mewn gosodiadau masnachol, cymunedol ac yn y cartref) mewn ardaloedd gwledig. Cyflawni hyn yn sgil y camau gweithredu SMART a amlinellwyd o dan Amcan Penodol 4.

- Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol drwy alluogi grwpiau cymunedol i wneud y defnydd gorau o TGCh; cefnogi atebion arloesol i'r heriau yn ymwneud â chysylltiadau mewn cymunedau gwledig. Cyflawnir hyn yn sgil y camau gweithredu SMART a amlinellwyd o dan Amcan Penodol 5.

## 3.4 Cynllun Gweithredu

Gweler y Tabl Rhesymeg Ymyrryd (ynghlwm) ac Adran 3.1 uchod.

## 3.5 Gweithgaredd Hyrwyddo

*(1,000 gair)*

Bydd y GGLl, gyda chefnogaeth Cadwyn Clwyd fel y corff gweinyddol, yn lledaenu gwybodaeth yn lleol drwy'r gweithwyr prosiect a fydd yn gweithio ar lawr gwlad gyda grwpiau cymunedol. Hefyd, caiff gwybodaeth am y prosiectau ei rhannu trwy fwletin electronig y GGLl.

- Bydd y GGLl yn lledaenu gwybodaeth am ganlyniadau'r Strategaeth mewn ffordd ragweithiol yn unol ag ethos LEADER o drosglwyddo cysyniadau prosiectau a lledaenu canlyniadau a gwersi a ddysgwyd. Gwneir hyn yn lleol yn ardal y GGLl, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig a hefyd ar lefel yr Undeb Ewropeaidd drwy rwydweithiau a gydnabyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

- Bydd y GGLl yn rhoi gwybodaeth am brosiect y CDG i fuddiolwyr trwy gysylltu'n uniongyrchol â hwy, cynnal gweithgareddau rhwydweithio a defnyddio'r cyfryngau lleol. Defnyddir y cyfryngau electronig a chopi caled.

- Caiff cylchlythyr ei gyhoeddi bob 6 mis ar gyfer buddiolwyr presennol y rhaglen a'r rheini fydd o bosibl yn elwa ar y rhaglen yn y pen draw. Hefyd,

bydd gweithgareddau cyhoeddusrwydd yn cynnwys ymgyrchoedd post rheolaidd i grwpiau sydd â diddordeb, deunydd hyrwyddo a llenyddiaeth, ac erthyglau yn y wasg a'r cyfryngau lleol. Rhoddir cydnabyddiaeth lawn i gymorth y CDG yn y gweithgareddau hyn.

- Bydd y GGLl a Cadwyn Clwyd hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal gweithgareddau cyhoeddusrwydd rhanbarthol gyda Grwpiau Gweithredol Lleol cyfagos er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau a chael yr effaith fwyaf.

- Bydd cymryd rhan yng ngweithgorau thematig a drefnir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn fodd i ledaenu canlyniadau'r prosiect LEADER hwn a'r broses LEADER.

- Bydd y GGLl yn sicrhau y rhoddir cydnabyddiaeth i arian yr Undeb Ewropeaidd drwy arddangos y logos ar bob deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth a hyrwyddo wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd a buddiolwyr y prosiect. Bydd Cadwyn Clwyd, y corff arweiniol, yn sicrhau bod yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd yn unol â'r datganiadau cyhoeddusrwydd (ynghlwm).

- Mae'r GGLl yn bwriadu cefnogi digwyddiad dathlu LEADER ar 9 Mai 2015. Bydd y dathliad un ai yn canolbwyntio ar lansio prosiect unigol neu'n ddathliad cyffredinol o LEADER, yn ôl penderfyniad y GGLl.

- Mae'r GGLl a'r Corff Arweiniol yn cadarnhau y byddwn yn cysylltu â staff Cyfathrebu'r CDG a Rhwydwaith Cymru Wledig wrth drefnu unrhyw lansiadau/datganiadau i'r wasg mewn perthynas â gweithgareddau LEADER.

## ADRAN 4 – RHEOLI'R GWAITH

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y mae gan y Grŵp Gweithredu Lleol a'i Gorff Gweinyddol etholedig y capasiti a'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn llwyddo i gyflenwi'r canlyniadau, dangosyddion allbwn a gweithgareddau. |
| Yn gysylltiedig â | Rhan o Adran 3.11 Canllawiau'r Strategaeth Datblygu Lleol, Mehefin 2014 (y gweddill i'w gynnwys dan Adran 2 – Cyllidol a Chydymffurfiaeth) |

### 4.1 Rheoli a Gweinyddu
*(2,500 gair)*

**Tystiolaeth o ymdrech i gydweithio**
Mae pob un o'r tri GGLl yng ngogledd-ddwyrain Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam), wedi cofleidio'r ethos o gydweithio er mwyn llunio'r strwythur rheoli a gweinyddol mwyaf cost effeithiol ar gyfer yr ardal. Mae'r manylion isod yn dangos bod y GGLl yn llwyddo i fod yn gost effeithiol drwy rhannu swyddogaethau gweinyddol, bywiocáu a chyflenwi thematig ar draws y tri GGLl yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. O ganlyniad, llwyddwyd i ad-drefnu costau cyflenwi gan arwain at gydweithio gwirioneddol. Byddir yn sicrhau mwy o gydweitiho drwy weithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol annibynnol eraill yng Nghymru, sef Menter Môn a PLANED mewn perthynas â LEADER a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â LEADER.

**Trefniadau rheoli a monitro'r strategaeth**
Bydd Cadwyn Clwyd yn parhau i ddefnyddio ei ddulliau monitro a gwerthuso presennol a fabwysiadwyd o dan ei raglenni presennol, a archwiliwyd ac a wiriwyd yn gadarnhaol gan Brofion Diwydrwydd Dyladwy Llywodraeth Cymru, Archwilwyr WEFO a gwiriadau Llywodraeth Cymru / Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW).

Y GGLl fydd yn gyfrifol am fonitro a gweithredu'r Strategaeth yn gyffredinol. Bydd Grŵp Partneriaeth Ymgynghorol Technegol Cadwyn Clwyd a Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn adrodd i'r GGLl o ran monitro'r gwaith o gyflenwi'r rhaglen, ei hallbynnau a'i gweithrediad yn unol â pholisïau'r Cwmni a'r themâu gwaelodol. Caiff y gwaith o gyflenwi'r Strategaeth ei fonitro gan y GGLl trwy adroddiadau chwarterol a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd chwarterol.

Fel rhan o'r Strategaeth, bydd swydd-ddisgrifiadau staff LEADER o fewn y Corff arweiniol yn cynnwys y gofyniad i gynnal gwerthusiad parhaus o bob prosiect LEADER a'i allbynnau. Bydd hyn yn fodd i werthuso effaith y rhaglen yn lleol. Bydd canlyniadau'r gwerthusiadau hyn ar gael ar wefan Cadwyn Clwyd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i effaith y rhaglen a throsglwyddo arfer da.

**Manylion niferoedd y staff**
Yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i Gyrff Gweinyddol symleiddio eu costau rhedeg, bydd Cadwyn Clwyd fel y corff Arweiniol yn gweithredu ar draws 3 ardal y GGLl. Felly, caiff costau gweinyddol a bywiocáu eu rhannu yn ôl cyllidebau dangosol ar draws 3 ardal y GGLl.

O dan y costau Bywiocáu, bydd y corff Arweiniol yn cefnogi Rheolwr GGLl 0.92 cyfwerth ag amser llawn, ac 1 Swyddog Bywiocáu cyfwerth ag amser llawn, y caiff yr amser ei ddyrannu yn ôl y canrannau a nodir isod.

O dan y costau Gweinyddol, bydd y corff Arweiniol yn cefnogi 1.6 Swyddog Ariannol cyfwerth ag amser llawn. Caiff amser y swydd hon hefyd ei ddyrannu yn ôl y canrannau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| GGLl Sir Ddinbych | 28.52% |
| GGLl Sir y Fflint | 37.34% |
| GGLl Wrecam | 34.14% |

Yn ogystal, mae swyddogion thematig yn hanfodol er mwyn cyflenwi prosiectau peilot yn dilyn y cyfnod bywiocáu. Cyflogir y rhain gan Cadwyn Clwyd a byddant yn cefnogi'r swyddi a ganlyn ar draws ardaloedd y 3 GGLl:

Swyddog Thematig Adnoddau Naturiol 1 cyfwerth ag amser llawn
Swyddog Thematig Partneriaethau Busnes 2 cyfwerth ag amser llawn
Swyddog Thematig Gwasanaethau Gwledig 1 cyfwerth ag amser llawn
Swyddog Thematig Ynni 1 cyfwerth ag amser llawn

Caiff amser y swyddogion thematig ei ddyrannu fel a ganlyn yn ardaloedd y GGLl unigol:

| | |
|---|---|
| GGLl Sir Ddinbych | 28.52% |
| GGLl Sir y Fflint | 37.34% |
| GGLl Wrecsam | 34.14% |

O ganlyniad, caiff:
Adnoddau 1.4 swyddog thematig cyfwerth ag amser llawn eu dyrannu i GGLl Sir Ddinbych
Adnoddau 1.9 swyddog thematig cyfwerth ag amser llawn eu dyrannu i GGLl Sir y Fflint
Adnoddau 1.7 swyddog thematig cyfwerth ag amser llawn eu dyrannu i GGLl Wrecsam

Hefyd penodir Swyddog Cymorth Prosiect 1.8 cyfwerth ag amser llawn i gynorthwyo'r swyddogion thematig a ddyrannwyd gan y canrannau uchod i'r ardaloedd GGLl unigol.

Mae Manylebau'r Swyddi wedi'u cynnwys yn yr atodiad.

**Tystiolaeth o sgiliau a chynlluniau hyfforddi**
Mae pob Manyleb Swydd yn cynnwys rhestr o fanylion meini prawf hanfodol a dymunol y swydd. Bydd Cadwyn Clwyd yn gwerthuso ceisiadau o blith ei staff presennol i'w hystyried ar gyfer y staff a gyflogir gan gorff Gweinyddol pob GGLl. Bydd yn rhaid i bob aelod staff a benodir i raglen LEADER 2014-2020 gyflawni'r meini prawf hanfodol ar gyfer eu swyddi perthnasol. Os na fydd y Corff Gweinyddol yn gallu recriwtio yn y lle cyntaf o blith ei staff presennol, yna bydd yn hysbysebu'r swyddi gwag yn allanol.

Os bydd angen darparu hyfforddiant ar sail meini prawf ‘dymunol’ y fanyleb swydd, caiff yr hyfforddiant hwnnw ei gynnig a’i ddarparu. Caiff Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant ei gynnal wrth i’r rhaglen ddatblygu a rhoddir hyfforddiant i staff yn ôl yr angen a phan ddaw’r angen i’r amlwg.

## ADRAN 5–GWERTH AM ARIAN

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y mae'r camau gweithredu a'r gwariant a amlinellir yn y Strategaeth Datblygu Lleol yn gwneud y defnydd gorau o gronfeydd yr UE. Eglurwch sut y mae'r costau a gynhwysir yn rhesymol, megis cost a nifer y staff sy'n ofynnol i gyflenwi'r gweithgareddau arfaethedig. |
| Yn gysylltiedig ag | Adrannau 3.4 a 4.0 Canllawiau'r Strategaeth, Mehefin 2014<br>Mae manylion Adran 3.4 eisoes wedi'u rhoi yn Adran 3 y templed hwn (Rhesymeg Ymyrryd) |

### 5.1 Proffiliau Cyflenwi Cyllidol

Cyfeiriwch at y tablau cyllid a rhesymeg os gwelwch yn dda.

| |
|---|
| **ADRAN 6 – DANGOSYDDION A CHANLYNIADAU** |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn bwriadu cyflawni'r dangosyddion canlyniadau ac allbynnau a nodwyd a'r holl dargedau cysylltiedig. |
| Yn gysylltiedig ag | Adran 4.1 Canllawiau'r Strategaeth, Mehefin 2014 |

## 6.1 Monitro a Chanlyniadau

Mae'r allbynnau yn deillio o'r broses ymgynghori pan gafodd y rheini sy'n cymryd rhan wahoddiad i nodi eu blaenoriaethau o ran meysydd ymyrryd. Yna, dyrannwyd yr allbynnau ar sail blaenoriaethau'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy. Yn ogystal, adolygwyd yr allbynnau yn erbyn rhaglenni blaenorol o ran yr hyn sy'n rhesymol yng nghyd-destun gwybodaeth a phrofiad blaenorol yn dyddio'n ôl i LEADER II, LEADER+ ac Echel 4 LEADER 2007-2013. Ar y lefel hwn, nid yw'n bosibl bod yn fwy cyfarwyddol gan y caiff allbynnau LEADER eu pennu gan brosiectau a gyflwynir i'r GGL i'w hystyried a'u cymeradwyo o bosibl.

**Thema 1**
O dan CGS1, rhagwelir y bydd allbynnau yn deillio o'r gweithgaredd a ganlyn:

**CGS1:** Datblygu, gwella a manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar werth masnachol a hamdden Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar gyfer pobl, cymunedau a busnesau yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Hyrwyddo a marchnata'r AHNE mewn ffordd arloesol fel atyniad a chyrchfan i ymwelwyr ar lefel is-ranbarthol.
- Treialu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r AHNE i farchnadoedd arbenigol, gwerth uchel gan gynnwys seiclo, cerdded a gweithgareddau awyr agored eraill.
- Treialu mecanweithiau cymorth arloesol sy'n cefnogi mentrau sy'n dibynnu ar yr AHNE fel atyniad allweddol i gydlynu a rhwydweithio'n fwy effeithiol ar lefel is-ranbarthol.
- Gwella a datblygu agweddau ar yr AHNE ei hun (e.e.llwybrau, lonydd, seilwaith ymwelwyr, rheoli a dehongli).

**CGS2:** Datblygu, gwella a manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar werth masnachol a hamdden Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas ar gyfer pobl, cymunedau a mentrau yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Hyrwyddo a marchnata'r Safle Treftadaeth y Byd mewn ffordd arloesol fel atyniad a chyrchfan i ymwelwyr ar lefel is-ranbarthol.
- Treialu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd i ddarpar-ymwelwyr.
- Treialu mecanweithiau cymorth arloesol i gefnogi mentrau sy'n dibynnu ar y Safle Treftadaeth y Byd fel atyniad allweddol i gydlynu a rhwydweithio'n fwy

effeithiol ar lefel is-ranbarthol.

- Gwella a datblygu agweddau ar y Safle Treftadaeth y Byd ei hun (e.e. seilwaith ymwelwyr, rheoli a dehongli).

Bydd **CGS3** yn cyflenwi allbynnau sy'n canolbwyntio ar Ddatblygu hunaniaeth ac adnoddau lleol drwy becyn cydlynol ac arloesol o fuddsoddiadau mewn ymdeimlad o le ar draws ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Cefnogi astudiaethau dichonoldeb lleol a chynlluniau i archwilio a manteisio'n economaidd ar dreftadaeth, diwylliant ac adnoddau naturiol, gan gynnwys bwyd a choedwigaeth.
- Buddsoddi mewn deunyddiau dehongli arloesol, arwyddion, digwyddiadau yn y gymuned, arddangosfeydd a gwyliau.
- Treialu prosiectau treftadaeth a hanes newydd sy'n annog cydweithio gyda grwpiau lleol ac academyddion.
- Buddsoddi mewn gwasanaethau eco-system arloesol â phwyslais penodol ar yr ucheldir.
- Rhoi gweithgareddau sy'n pontio rhwng y cenedlaethau ar brawf (gan gynnwys trwy dechnoleg ddigidol) sy'n hwyluso trosglwyddo gwybodaeth am ardal wledig Sir Ddinbych.

Yn dilyn y broses ymgynghori, rhagwelir y caiff 7 prosiect clwstwr eu datblygu o dan y rhaglen, ac y cyflawnir yr allbynnau tua diwedd y rhaglen.  Eto, rhagwelir y bydd 7 cymuned yn elwa ar yr ymyriad, gall y cymunedau hyn fod yn gymunedau daearyddol, cymunedau sector, cymunedau thematig neu gymunedau sy'n rhannu diddordeb.

**Thema 2**

Bydd y GGLl yn gweithio gyda'r gymuned fusnes yn ei ardal weithredol er mwyn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth wedi'i deilwra (cyn-fasnachol) a hynny er mwyn helpu entrepreneuriaid lleol i 'brofi' hyfywedd cysyniadau a syniadau busnes newydd mewn amgylchedd cefnogol lle caiff risg ei reoli. Bydd allbynnau yn deillio o'r camau a ganlyn;

**CGS4:** Darparu cymorth wedi'i deilwra (cyn-fasnachol) i helpu entrepreneuriaid lleol 'roi prawf' ar hyfywedd cysyniadau a syniadau busnes newydd mewn ffordd gefnogol ac amgylchedd sy'n rheoli risg. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Archwilio prawf o gysyniad a dichonoldeb syniadau busnes newydd. Treialu mynediad at 'ganolfannau' entrepreneuriaeth lleol yn cynnig cyfleusterau hanfodol (e.e. mynediad at fand llydan cyflym a chyfleusterau ymchwil a datblygu).
- Hwyluso mynediad at farchnadoedd (e.e. trwy siopau 'pop-up' neu ofod mewn digwyddiadau masnach neu wyliau) i 'brofi'r galw.
- Darparu mynediad at fentora ac arweiniad pellach gan gysylltu entrepreneuriaid yn uniongyrchol â Busnes Cymru ac Asiantaeth Menter Sir Ddinbych.
- Galluogi pobl ifanc i gynorthwyo â'r gwaith o brofi hyfywedd syniad (cyn-fasnachol) a hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith ieuenctid.

**CGS5:** Darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer busnesau gan gynnwys mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu yn y sectorau twristiaeth, amaethyddiaeth a choedwigaeth, hamdden, llety, adwerthu a bwyd i wella cysylltiadau a rhwydweithio wyneb yn wyneb a digidol. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Sefydlu a hwyluso rhwydweithiau is-ranbarthol (h.y. yn cynnwys Sir y Fflint a Wrecsam) i ddod â busnesau yn y sectorau blaenoriaeth allweddol hyn ynghyd gyda'r nod o ysgogi cynnydd yn y cadwyni cyflenwi rhyng-fasnachol a lleol.
- Adeiladu ar lwyddiant ffeiriau a gwyliau bwyd lleol presennol a chynnig cyfle i gynhyrchwyr newydd gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn i lansio cynnyrch newydd.
- Treialu cynlluniau cyflenwi lleol cydweithredol newydd – gan alluogi cynhyrchwyr lleol i gyrraedd dewis ehangach o ddefnyddwyr masnachol a phreifat mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.
- Treialu datblygu rhwydwaith bach o fentoriaid yn y sector bwyd a diod er mwyn helpu pobl ifanc i gael gwaith neu ddechrau busnes yn y sector bwyd a diod yn ardal wledig Sir Ddinbych.
- Adeiladu ar fenter Sir Ddinbych Ddigidol a'i hehangu o bosibl, gan dreialu nodweddion newydd ac arloesol ar gyfer y wefan sydd eisoes yn bodoli.
- Darparu cyngor a chymorth rhagweithiol ar sut y gall yr iaith Gymraeg gynnig buddion masnachol – annog busnesau i gofleidio manteision dwyeithrwydd drwy rhwydweithio wyneb yn wyneb ac yn ddigidol.

Ar sail yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghorol, rhagwelir y caiff 15 is-brosiect eu treialu gan arwain at allbynnau ar gyfer 15 gweithrediad a gyflawnwyd. Gall 15 fferm fod ar eu hennill yn sgil cymryd rhan mewn prosiectau peilot, hefyd, gall 25 busnes elwa yn sgil prosiectau peilot sy'n treialu mentrau ar sail grŵp. Unwaith eto, rhagwelir y bydd 8 cymuned (sectorau, thematig yn ddaearyddol, diddordeb) yn cymryd rhan mewn cynlluniau peilot.

**Thema 3**

Caiff allbynnau sy'n gysylltiedig â Thema 3 eu cyflenwi drwy'r ymyriadau a ganlyn:
**CGS6**: Cefnogi datblygiad a galluoedd cymunedau lleol, grwpiau cymunedol (gan gynnwys grwpiau o ficrofusnesau), sefydliadau a mentrau cymdeithasol i gyflenwi gwasanaethau lleol. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Trosglwyddo a gwreiddio gwybodaeth, sgiliau a chyngor i sefydlu modelau priodol (e.e. grwpiau cydweithredol) a chefnogi mynediad at gronfeydd cyllid priodol.
- Cynghori ar brosiectau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) a hwyluso eu datblygiad er mwyn cynnal gwasanaethau ac adfywio /rhoi bywyd newydd i adeiladau lleol nad ydynt yn cael eu defnyddio ac asedau eraill.
- Cefnogi datblygiad cynaliadwy a pharhad canolfannau cymunedol (megis swyddfeydd post, llyfrgelloedd, siopau, caffis a thafarndai) o dan fodelau perchnogaeth/busnesau cymdeithasol arloesol.
- Cefnogi cymunedau a busnesau lleol i berchnogi a chymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau lleol pwysig sydd mewn perygl o gael eu cau neu'u canoli.
- Hwyluso cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na

hyfforddiant i gael profiad a datblygu sgiliau drwy wirfoddoli gyda mentrau cymdeithasol.

Ar sail yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghorol, rhagwelir y caiff 7 is-brosiect eu treialu gan arwain at allbynnau o gyflawni 7 gweithrediad ac ymgysylltu â 7 cymuned (cymunedau sectorau, daearyddol, thematig neu diddordeb). Rhagwelir y bydd 7 busnes yn elwa, boed rheini yn fentrau cymdeithasol neu'n ficrofusnesau gwledig.

**Thema 4**

Er mwyn cyflenwi allbynnau thema 4, cyflawnir y gwaith a ganlyn:

**CGS7:** Cefnogi sefydlu a thyfu cynlluniau trafnidiaeth gymunedol arloesol, carbon isel. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Cynghori a chefnogi cymunedau lleol ar sefydlu/treialu modelau trafnidiaeth gymunedol ac atebion.
- Cynorthwyo grwpiau trafnidiaeth i gael mynediad at gyllid a buddsoddiad priodol.
- Treialu cynlluniau trafnidiaeth gymunedol sy'n mynd i'r afael ag arwahaniad cymdeithasol a chynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i gael mynediad at wasanaethau, cynlluniau sy'n helpu i ddatblygu/sefydlu rhwydweithiau cyflenwi lleol ar gyfer cynnyrch lleol (cysylltiadau â CGS2) a chynlluniau sy'n helpu pobl ifanc i gyrraedd y coleg neu'r gwaith.

**CGS8**: Darparu cymorth penodol wedi'i deilwra i helpu cymunedau a mentrau cymdeithasol archwilio ffynonellau ynni adnewyddadwy. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth arbenigol, cyngor ac arweiniad ar fathau newydd o dechnoleg adnewyddadwy (e.e. treulio anaerobig ym maes amaethyddiaeth, prosiectau ynni hydro a biomas), mentrau effeithlonrwydd ynni a lliniaru newid yn yr hinsawdd.
- Cefnogi astudiaethau dichonoldeb a hyfywedd cychwynnol i archwilio a threialu pa mor briodol ac addas yw technolegau adnewyddadwy mewn amgylchiadau/lleoliadau penodol.
- Cynorthwyo â'r gwaith o brofi cysyniad a threialon ar gyfer prosiectau technoleg adnewyddadwy sy'n berchen i'r gymuned ar raddfa ficro y gellid eu hehangu (pe baent yn llwyddiannus).
- Darparu gwasanaeth cynghori lleol er mwyn cynorthwyo grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i ailfuddsoddi mewn ffordd gynaliadwy unrhyw refeniw a ddaw yn sgil ffynonellau ynni adnewyddadwy (e.e. gosodiadau Solar Ffotofoltäig neu gynlluniau hydro). Byddai hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau peilot i gefnogi a datblygu consortia prynu lleol er mwyn sicrhau ynni pris is.

Byddir yn chwilio am 6 gweithrediad, gan ymgysylltu â 6 ardal gymuned gan olygu y byddai 6 cymuned yn elwa. Ar sail y broses ymgynghorol, rhagwelir y bydd 15 busnes yn elwa.

**Thema 5**

Caiff yr allbynnau a gyflenwyd o dan Thema 5 eu cyflawni drwy'r ymyriadau a ganlyn;

**CGS9:** Darparu cymorth penodol ac wedi'i deilwra gyda'r nod o wella'r ffordd y mae mentrau yn ardal wledig Sir Ddinbych yn denfyddio technoleg ddigidol. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol a sut y gellir eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo, er mwyn eu gwneud yn fwy cystadleuol a chael mwy o fusnes.
- Darparu cymorth rhagweithiol i annog mentrau i hysbysebu (trwy'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill) eu nwyddau /gwasanaethau, digwyddiadau allweddol, cynigion ac ati.
- Darparu gwybodaeth a chyngor a meithrin capastiti ynglŷn â sut y gall technoleg ddigidol wella effeithlonrwydd ac e-ddiogelwch i fusnesau a mentrau cymdeithasol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a threialu 'apiau' a gwefannau penodol er mwyn cynorthwyo partneriaethau busnes, rhwydweithiau a chydweithio drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

**CGS10:** Datblygu canolfannau rhagoriaeth digidol yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Darparu mynediad at gysylltiad band eang cyflym, dibynadwy a lle i weithio ar gyfer trigolion, ymwelwyr a microfusnesau a mentrau cymdeithasol lleol.
- Treialu gweithgareddau cynhwysiant digidol newydd – gyda phwyslais arbennig ar gamau gweithredu sy'n pontio rhwng y cenedlaethau ac sy'n annog y defnydd o TGCh.

Ar sail yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses ymgynghorol, rhagwelir y caiff 6 is-brosiect eu treialu gan arwain at yr allbynnau o gyflawni 6 gweithrediad ac ymgysylltu â 6 chymuned (cymunedau sectorau, daearyddol, thematig neu diddordeb). Rhagwelir y bydd 25 busnes yn elwa, boed rheini yn fentrau cymdeithasol neu'n ficrofusnesau gwledig.

**Cydweithio**

Caiff allbynnau cydweithio eu cyflenwi yn sgil yr ymyriadau a ganlyn:

**CGS1:** Datblygu, gwella a manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar werth masnachol a hamdden Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i bobl, cymunedau a busnesau yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:

- Hyrwyddo a marchnata'r AHNE mewn ffordd arloesol fel atyniad a chyrchfan i ymwelwyr ar lefel is-ranbarthol.
- Treialu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r AHNE i farchnadoedd arbenigol, gwerth uchel gan gynnwys seiclo, cerdded a

gweithgareddau awyr agored eraill.
- Treialu mecanweithiau cymorth arloesol sy'n cefnogi mentrau sy'n dibynnu ar yr AHNE fel atyniad allweddol i gydlynu a rhwydweithio'n fwy effeithiol ar lefel is-ranbarthol.
- Gwella a datblygu agweddau ar yr AHNE ei hun (e.e.llwybrau, lonydd, seilwaith ymwelwyr, rheoli a dehongli. *Byddai hwn yn brosiect cydweithredol tiriogaethol ar draws Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a byddai hefyd yn cynnig cyfle i gydweithio'n ehangach ar draws y Deyrnas Unedig ac yn draws-genedlaethol*

**CGS2:** Datblygu, gwella a manteisio mewn ffordd gynaliadwy ar werth masnachol a hamdden Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas ar gyfer pobl, cymunedau a mentrau yn ardal wledig Sir Ddinbych. Byddai'r cam gweithredu hwn yn cynnwys:
- Hyrwyddo a marchnata'r Safle Treftadaeth y Byd mewn ffordd arloesol fel atyniad a chyrchfan i ymwelwyr ar lefel is-ranbarthol.
- Treialu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Safle Treftadaeth y Byd i ddarpar-ymwelwyr.
- Treialu mecanweithiau cymorth arloesol i gefnogi mentrau sy'n dibynnu ar y Safle Treftadaeth y Byd fel atyniad allweddol i gydlynu a rhwydweithio'n fwy effeithiol ar lefel is-ranbarthol.
- Gwella a datblygu agweddau ar y Safle Treftadaeth y Byd ei hun (e.e. seilwaith ymwelwyr, rheoli a dehongli).

Rhagwelir y byddir yn cyflawni 7 gweithrediad a fydd yn golygu 7 ymyriad gwahanol yn seiliedig ar gydweithio traws-genedlaethol neu rhyng-diriogaethol â rhif targed o 8 GGLl yn cymryd rhan.  Bydd 5 o'r rhain yn rhai TGCh a 2 brosiect TNC.  Byddwn yn anelu at gael 5 cymuned i gymryd rhan o dan y mesur cydweithio.

## 6.2 Cynllun Gwerthuso

**Cynigion ar gyfer gwerthuso perfformiad yn erbyn y Strategaeth Datblygu Lleol**

Mae'r cynllun gwerthuso ar gyfer Strategaeth Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn seiliedig ar gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am effeithlonrwydd ac effeithioldeb y strategaeth a'i chamau gweithredu cysylltiedig a sicrhau y caiff unrhyw feysydd gwella eu nodi yn fuan ac y gweithredir arnynt.

Gan mai Cadwyn Clwyd fydd y corff gweinyddol ar gyfer GGLl Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, bydd y cynllun gwerthuso yn gyffredin i'r tair ardal er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau yn ogystal â chynnig dadansoddiad dyfnach sy'n cyferbynnu profiadau a dysgu ar draws y gwahanol siroedd.

Rydym wedi amlinellu isod ein cynigion methodolegol penodol a ffynonellau'r data gwaelodlin a fydd yn cefnogi gweithgareddau gwerthuso.

**Methodoleg arfaethedig a chyfiawnhad**

Gwerthusiad Ffurfiannol (yn ystod gweithrediadau)

Bydd gweithgareddau'r gwerthusiad ffurfiannol yn cynnwys:

- Lle bo hynny'n bosibl, pennu data gwaelodlin ar gyfer camau gweithredu LEADER y gellir mesur cynnydd ac allbynnau yn eu herbyn (e.e. nifer ymwelwyr, swyddi mewn sectorau penodol a thueddiadau'r boblogaeth).
- Casglu data monitro yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol a gytunwyd ar gyfer pob un o'r camau gweithredu SMART. Bydd Cadwyn Clwyd yn goruchwylio'r gwaith o gasglu, coladu a dadansoddi'r wybodaeth fonitro (trwy ffurflenni a chronfeydd data buddiolwyr) a sicrhau y caiff yr wybodaeth ei hadrodd i Lywodraeth Cymru ar gyfer dadansoddiad ehangach ar lefel Rhaglen, yn unol â'r canllawiau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i sicrhau y caiff data monitro ar gydraddoldeb (gan gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig a nodir yn Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun Datblygu Gwledig) eu casglu a'u cynnal.
- Cynnal rhaglen waith hunanwerthuso barhaus a fydd yn golygu:
    - Cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid (e.e. aelodau'r GGLl) a buddiolwyr er mwyn casglu adborth ar weithgareddau'r Grwpiau Gweithredu Lleol, eu cynnydd a'u perfformiad.
    - Paratoi deunydd astudiaethau achos yn tynnu sylw at arfer da a'r gwersi a ddysgwyd gyda'r nod o gyhoeddi a rhannu'r deunydd hwn yn rhagweithiol ymhlith rhanddeiliaid sydd â diddordeb.
- Comisiynu gwerthusiad canol tymor annibynnol (MTE), ynghyd â hysbysebu'r fanyleb gyfan ar gyfer y gwaith ar GwerthwchiGymru. Caiff un contract (trwy fanyleb gyfun) ei gosod ar gyfer gwerthusiad canol tymor y tair strategaeth datblygu lleol. Nod y gwerthusiad canol tymor fydd:
    - Asesu pa mor briodol yw'r strategaeth gyfan a'r rhesymeg ymyrryd sy'n sail i'r Strategaeth Datblygu Lleol.
    - Asesu cynnydd a pherfformiad hyd yma o ran allbynnau a chanlyniadau cynnar. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio dulliau ansoddol a meintiol trylwyr i ganfod safbwyntiau buddiolwyr a rhanddeiliaid.
    - Amlygu meysydd lle ceir arfer da a'u dangos ar ffurf astudiaethau achos gwerthuso.
    - Nodi unrhyw agweddau nad ydynt yn perfformio i'r lefel uchaf wrth gyflenwi ac argymell camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.
    - Asesu i ba raddau y llwyddir i sicrhau gwerth am arian.
    - Asesu cryfder dadleuon gwrthffeithiol (h.y. beth fyddai'r sefyllfa debygol pe na bai arian LEADER ar gael/wedi ei fuddsoddi).
    - Asesu cyfraniad camau gweithredu'r Strategaeth a LEADER i'r themâu trawsbynciol.
    - Asesu i ba raddau y caiff yr hyn a ddysgir mewn perthynas â chamau gweithredu arloesol ei rannu â Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhannau eraill o Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.
    - Argymell a oes angen unrhyw newidiadau strategol neu weithredol, gan gynnwys perthnasedd parhaus y Strategaeth ei hun.

Y cyfiawnhad dros ddewis y fethodoleg gwerthusiad ffurfiannol hon yw:

- Mae'n gymesur â graddfa ac uchelgais buddsoddiad LEADER.
- Mae'n cyfuno dulliau ymchwil cymdeithasol ansoddol a meintiol cadarn a lle

bo hynny'n bosibl bydd yn archwilio'r maes hynod heriol o sefydlu dadleuon gwrthffeithiol.

- Bydd yn ei gwneud yn bosibl i weithredu ar lefel is-ranbarthol – gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a dadansoddiad dyfnach.
- Mae'n cyfuno gweithgaredd hunanwerthuso â thrylwyredd contractwyr annibynnol yn ystod y cam canol tymor.

<u>Gwerthusiad Crynodol (diwedd y gweithrediadau)</u>

Bydd gweithgareddau'r gwerthusiad crynodol yn cynnwys:

- Comisiynu gwerthusiad annibynnol 'diwedd y rhaglen' a fyddai'n:
    - Asesu i ba raddau y cafodd yr argymhellion a wnaed yn ystod y cam canol tymor eu gweithredu.
    - Asesu pa mor briodol yw'r strategaeth gyfan a'r rhesymeg ymyrryd sy'n sail i'r Strategaeth Datblygu Lleol.
    - Asesu cynnydd a pherfformiad crynodol yr allbynnau a'r canlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio dulliau meintiol ac ansoddol trylwyr i ganfod safbwyntiau buddiolwyr a rhanddeiliaid.
    - Amlygu meysydd lle ceir arfer da a'u dangos ar ffurf astudiaethau achos gwerthuso.
    - Nodi unrhyw agweddau nad ydynt yn perfformio i'r lefel uchaf wrth gyflenwi ac argymell camau i fynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn rhaglenni yn y dyfodol.
    - Asesu i ba raddau y llwyddwyd i sicrhau gwerth am arian.
    - Asesu cryfder dadleuon gwrthffeithiol (h.y. beth fyddai'r sefyllfa debygol pe na bai arian LEADER ar gael /wedi ei fuddsoddi).
    - Asesu i ba raddau y cafodd yr hyn a ddysgwyd mewn perthynas â chamau gweithredu arloesol ei rannu gyda Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhannau eraill o Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.
    - Asesu i ba raddau y llwyddwyd i brif-ffrydio camau gweithredu arloesol a'r graddau y gallai hyn ddigwydd ar ôl cwblhau'r Rhaglen.
    - Asesu cyfraniad camau gweithredu'r Strategaeth a LEADER i'r themâu trawsbynciol.
    - Argymell a oes angen unrhyw newidiadau strategol neu weithredol ehangach yng nghyd-destun unrhyw raglenni a fydd yn dilyn.

Y cyfiawnhad dros ddewis y fethodoleg gwerthusiad crynodol hon yw:

- Mae'n gymesur â graddfa ac uchelgais buddsoddiad LEADER.
- Mae'n cyfuno dulliau ymchwil cymdeithasol ansoddol a meintiol cadarn a lle bo hynny'n bosibl bydd yn archwilio'r maes hynod heriol o sefydlu dadleuon gwrthffeithiol.
- Bydd yn ei gwneud yn bosibl i weithredu ar lefel is-ranbarthol – gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a dadansoddiad dyfnach.
- Mae'n cyfuno gweithgaredd hunanwerthuso â thrylwyredd contractwyr annibynnol yn ystod y cam canol tymor.

**Data Gwaelodlin**

Yn y tabl isod, nodir rhai o ffynonellau perthnasol y data gwaelodlin sy'n berthnasol i'r Strategaeth hon.

| Ffynhonnell | Data sydd ar gael | Perthnasedd a defnydd posibl |
|---|---|---|
| Data STEAM | Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd rhan yn arolwg blynyddol STEAM sy'n mesur maint (nifer yr ymwelwyr) a gwerth (faint y maent yn ei wario) twristiaeth yn y sir. | Bydd y data (ac unrhyw arolwg a fydd yn olynu STEAM) yn ddefnyddiol i bennu effaith unrhyw ymyriadau sy'n seiliedig ar dwristiaeth yn y sir, o dan AP1. Gall y data hefyd fod o ddefnydd ar gyfer camau gweithredu perthnasol o dan AP5 a gynlluniwyd i annog ymwelwyr i aros am gyfnodau hwy yn ardal wledig Sir Ddinbych. |
| Arsyllfa Wledig Cymru | Mae gwefan Arsyllfa Wledig Cymru yn cynnwys gwaith ymchwil sydd yn berthnasol i Strategaeth Datblygu Lleol Sir Ddinbych, gan gynnwys;<br>• Arolygon Gwasanaethau Gwledig, Busnesau ac Aelwydydd ar gyfer 2013<br>• Dadansoddiad o Effaith Sosio-economaidd Diwygiadau PAC ar Gymru Wledig<br>• Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi<br><br>Mae'r data ar gael yn gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, ond mewn rhai achosion ceir dadansoddiad ar lefel Awdurdodau Lleol. | Yn nhermau pob un o'r amcanion penodol;<br>• AP1 – Mae data ar fusnesau twristiaeth ar gael yn yr Arolwg Busnesau Gwledig, a cheir mwy o wybodaeth ar batrymau cyflogaeth yn yr Arolygon Aelwydydd<br>• AP2 – Mae'r Arolwg Busnesau Gwledig yn cynnig amrediad eang o ddata gwaelodlin a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer prosiectau a ariennir o dan yr amcan hwn, gan gynnwys faint sy'n gofyn am gymorth busnes a chysylltiadau band eang.<br>• AP3 – Mae'r Arolwg Gwasanaethau Gwledig yn cynnwys data gwaelodlin ar adwerthu, gofal iechyd, addysg, gofal plant, mynediad at wybodaeth a lles, cyfleusterau hamdden, cydlyniad cymunedol, trafnidiaeth ac ailgylchu yng nghyd-destun cefn gwlad Cymru.<br>• AP4 – Ceir adran yn yr Arolwg Aelwydydd Gwledig sy'n ymwneud â chanfyddiadau o newid yn yr amgylchedd naturiol, ymwybyddiaeth o fentrau polisi perthnasol a phryderon amgylcheddol ehangach.<br>• AP5 – Mae'r Arolwg Busnesau Gwledig yn darparu data gwaelodlin ar y defnydd o TGCh gan fusnesau a fyddai'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddefnyddiol yng nghyd-destun unrhyw ymyriadau perthnasol ar gyfer busnesau bach a chanolig. |
| Arolwg Trigolion Sir Ddinbych | Cynhelir yr arolwg hwn bob dwy flynedd ac mae'n casglu barn trigolion am ansawdd bywyd, yr amgylchedd a chyfleusterau lleol a Chyngor Sir Ddinbych ei hun, ynghyd â data demograffig. | Bydd y data yn ddefnyddiol i fesur effaith unrhyw ymyriadau yn y sir o dan AP3. Er enghraifft, ceir data ar faint o leoedd parcio sydd ar gael a glendid y trefi. Hefyd, ceir data defnyddiol ar gyfer cwestiynau mwy cyffredinol yn ymwneud ag ansawdd bywyd a pha mor fodlon yw'r trigolion yn gyffredinol. |
| Llywodraeth Cymru – StatsCymru | Mae Llywodraeth Cymru yn rhyddhau data ystadegol yn rheolaidd ar ei gwefan StatsCymru. Mae'r data yn berthnasol yng nghyd-destun Strategaeth Datblygu Lleol Sir Ddinbych. | Mae'r wefan hon yn cynnwys data ar gyfer amrediad eang iawn o feysydd, a gellir eu hidlo yn ôl ardal Awdurdod Lleol. Mae'r pynciau yn cynnwys:<br>• Ystadegau amaethyddiaeth a materion gwledig<br>• Ystadegau busnes, economi a'r farchnad lafur<br>• Yr amgylchedd a chefn gwlad<br>• Poblogaeth ac Ymfudo<br>• Twristiaeth<br>• Yr iaith Gymraeg<br><br>Bydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) hefyd yn darparu data gwaelodlin defnyddiol (a dull o fonitro cynnydd wedi hynny) ar amryw o ffactorau sy'n effeithio ar dlodi ac amddifadedd.<br><br>Bydd hon yn ffynhonnell ddata werthfawr a fydd yn berthnasol i nifer o gamau gweithredu ar draws pum thema LEADER. |
| Arolwg Twristiaeth 'the Great British Tourism Survey' | Arolwg defnyddwyr yw hwn sy'n mesur tueddiadau a phatrymu ymwelwyr Prydeinig o fewn y Deyrnas Unedig. Gellir dadansoddi'r data ar lefel Awdurdodau Lleol, rhanbarthau a threfi. | Bydd y data yn ddefnyddiol i fesur effaith unrhyw ymyriadau yn y sir ar sail twristiaeth, o dan AP1. Gall y data hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer camau gweithredu perthnasol o dan AP5 a gynlluniwyd i annog ymwelwyr i aros am gyfnodau hwy yn ardal wledig Sir Ddinbych. Mae gwybodaeth ar gael ynglŷn â phwrpas ymweliadau, llety a ddefnyddiwyd, o ble y daw'r ymwelwyr ac ar ba adeg o'r flwyddyn y byddant yn dod. |
| Y Swyddfa | Mae'r safle hwn yn | Mae data'r Arolwg Busnes yn olrhain |

| | | |
|---|---|---|
| Ystadegau Gwladol | cynnwys cysylltiadau ag adroddiadau a setiau data ar amryw o bynciau, gan gynnwys yr Arolwg Busnes blynyddol. Mae'r data ar gael yn aml ar lefel ranbarthol, ac ar gyfer Cymru gyfan. | newidiadau yn y Gwerth Ychwanegol Gros ar draws gwahanol sectorau a bydd yn ddefnyddiol ar gyfer prosiectau o dan AP2. Fodd bynnag, fel yn achos StatsCymru, mae data ar gael a allai fod yn ddefnyddiol fel gwaelodlin ar gyfer camau gweithredu ar draws y pum thema LEADER a amlinellir yn y Strategaeth hon. |

**Amserlen y Gwerthusiad**

Mae'r Strategaeth yn nodi'r angen am gynnal gwerthusiad ar gamau allweddol. Y cyntaf fydd Gwerthusiad Ffurfiannol a gynhelir yn ystod gweithrediadau a'r llall fydd Gwerthusiad Crynodol a gynhelir ar ddiwedd y gweithrediadau. Bydd y Gwerthusiad Ffurfiannol yn cynnwys (i) cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda rhanddeiliad (ii) astudiaeth achos ar y prosiectau peilot a gwblhawyd a (iii) gwerthusiad annibynnol canol tymor a gaffaelwyd yn allanol. Bydd y gwerthusiad Crynodol yn cynnwys gwerthusiad annibynnol ar ddiwedd y rhaglen a gaffaelwyd yn annibynnol. Mae'r tair Strategaeth Datblygu Lleol ar gyfer Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wedi nodi ffordd o arbed costau drwy gaffael gwerthusiadau allanol fel un darn o waith. Er y bydd gan bob Strategaeth ei elfen annibynnol yn y Gwerthusiad, caiff yr ymarferiad ei gyfuno gan sicrhau gwerth am arian o bosibl. Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn wedi'i nodi isod (fodd bynnag, gall amseroedd a gwerthusiadau allanol newid yn sgil Brexit ac ansicrwydd ynglŷn â'r dyddiad y daw'r rhaglen i ben):

| | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Cwblhau** | **Mewnol neu Allanol** |
|---|---|---|---|
| **Gwerthusiad Ffurfiannol** | | | |
| Cyfweliadau a Grwpiau Ffocws gyda Rhanddeiliaid | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2021 | Mewnol |
| Deunydd Astudiaethau Achos | Mehefin 2017 | Rhagfyr 2021 | Mewnol |
| Gwerthusiad Canol Tymor | Medi 2018 | Rhagfyr 2018 | Allanol |
| | | | |
| **Gwerthusiad Crynodol** | | | |
| Gwerthusiad Allanol Diwedd y Rhaglen | Medi 2021 | Tachwedd 2021 | Allanol |

| |
|---|
| **ADRAN 7 – ADDASRWYDD BUDDSODDIAD** |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch yr angen a'r galw am y Grŵp Gweithredu Lleol a'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Datblygu Lleol a pha un a yw'r galw hwn eisoes yn cael ei fodloni trwy ddarpariaeth bresennol. Eglurwch sut y bydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn gallu cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig yn llwyddiannus. |
| Yn gysylltiedig ag | Adrannau 3.2 a 3.3 Canllawiau'r Strategaeth Datblygu Lleol, Mehefin 2014 |

**7.1 Disgrifiad o'r broses o gynnwys y gymuned wrth ddatblygu'r Strategaeth**
*(1,000 gair ynghyd â rhestr o'r grwpiau a sefydliadau yr ymgynghorir â hwy)*

**Y Cynllun Cyfathrebu**

Ymgynghori yn ystod cam cyllunio'r strategaeth:

Wrth baratoi'r strategaeth hon, fe wnaeth Cadwyn Clwyd, gyda chymorth ymgynghorwyr, gynnal proses ymgynghori gynhwysfawr. Mae'r broses ymgynghori wedi cynnwys y gweithgareddau a ganlyn:

- Cynhaliwyd trafodaethau parhaus a chyfarfodydd dwyochrog rhwng Cadwyn Clwyd a'r prif rhanddeiliaid er Ionawr 2014.
- Lansio ymgynghoriad arlein a ddosbarthwyd i'r prif randdeiliaid ar gronfeydd data Cadwyn Clwyd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd). Lansiwyd yr ymgynghoriad arlein ar 29 Gorffennaf 2014. Derbyniwyd 50 ymateb.
- Cynhaliwyd dau weithdy ymgynghori cyhoeddus yn Sir Ddinbych. Trefnwyd sesiwn yn ystod y dydd ar 20 Awst a sesiwn gyda'r nos ar 21 Awst 2014. Anfonwyd gwahoddiadau at bob enw ar gronfeydd data Cadwyn Clwyd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Hefyd, hysbysebwyd y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn lleol ac yn rhanbarthol a denwyd sylw cenedlaethol ar y rhyngrwyd. Daeth cyfanswm o 25 o bobl i'r gweithdai ymgynghori cyhoeddus.
- Cynhaliwyd gweithdy ymgynghori gydag aelodau a swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ar 1 Medi 2014. Daeth 17 o bobl i'r gweithdy hwn.
- Cynhaliwyd nifer o gyfweliadau ymgynghori dwyochrog gydag unigolion nad oeddynt yn gallu dod i'r gweithdai ymgynghori ond a oedd yn dymuno cymryd rhan.
- Roeddem yn bresennol yn sioe amaethyddol Dinbych a Fflint ar 21 Awst 2014 a dosbarthwyd fersiynau papur o'r ymgynghoriad arlein. Derbyniwyd 16 ymateb yn sgil hyn.

Y sectorau a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad oedd:

- Y sector cyhoeddus
- Y trydydd sector
- Y sector preifat
- Unigolion

Os oes angen, gellir darparu'r dystiolaeth ategol a ganlyn:

- Rhestr lawn o bawb a ddaeth i'r gweithdai ymgynghori.
- Dadansoddiad mwy manwl o gategorïau /sectorau'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad arlein.
- Rhaglenni anodedig a sleidiau cyflwyniadau PowerPoint y gweithdai ymgynghori.
- Nodiadau (a ffotograffau cysylltiedig) y gweithdai ymgynghori yn nodi'r pwyntiau a drafodwyd.

Yn ogystal, wrth fynd ati i lunio'r Strategaeth, cymerodd Cadwyn Clwyd y cyfle i gysylltu â rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer:

- Strategaeth Twristiaeth yr AHNE.
- Gwerthusiadau o drefniadau llywodraethu arfaethedig.
- Asesiad o botensial Safle Treftadaeth y Byd.
- Strategaeth Ddatblygu Hiraethog.
- Astudiaeth ymchwil i drafnidiaeth yn ardal wledig Sir Ddinbych.

<u>Pwyslais y drafodaeth ymgynghorol:</u>

Roedd pwyslais y gwaith ymgynghorol a gynhaliwyd wrth lunio'r strategaeth hon fel a ganlyn:

- Cyfleu beth yw pwrpas LEADER, faint o arian sydd ar gael i'w fuddsoddi, ble y gellir ei fuddsoddi ac mewn beth y gellir buddsoddi (h.y. pum thema rhaglen LEADER).
- Casglu tystiolaeth a barn am y sefyllfa bresennol yn ardal wledig Sir Ddinbych, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ac archwilio'r cyfiawnhad a'r rhesymeg dros y safbwyntiau a gyflwynwyd.
- Casglu barn a syniadau am y math o gamau gweithredu y gellid eu cefnogi ac y gallai LEADER fuddsoddi ynddynt.
- Casglu tystiolaeth a barn am sut y bydd y cyfleoedd datblygu a'r camau gweithredu arfaethedig a nodwyd yn cysylltu â pholisïau a strategaethau lleol (h.y. Sir Ddinbych), is-ranbarthol (h.y. Gogledd Cymru), cenedlaethol (h.y. Cymru) a'r Undeb Ewropeaidd, a sut y gallant fod o gymorth i'w cyflenwi.

Yn ystod y broses ymgynghorol, rhoddwyd llawer o bwyslais ar flaenoriaethu'r anghenion datblygu a'r cyfleoedd a'r mathau o gamau gweithredu y gellid eu cefnogi. Heriwyd y rheini a gymerodd ran yn y broses i feddwl yn ofalus a nodi pa anghenion datblygu a chyfleoedd oedd bwysicaf a pha gamau gweithredu posibl a ariennir gan LEADER oedd yn hanfodol o'u cymharu ag eraill y gellid eu disgrifio yn rhai dymunol ond yn llai pwysig o safbwynt strategol. Roedd hyn yn rhan allweddol

o’r broses i ddatblygu hierarchaeth yr amcanion ar gyfer ardal wledig Sir Ddinbych.

<u>Sut y defnyddiwyd deunydd yr ymgynghoriad /ei gynnwys yng nghynllun y strategaeth</u>

Yn dilyn y cyfnod ymgynghorol (a amlinellwyd uchod) lluniwyd nodiadau manwl ar bob un o’r gweithdai ymgynghori a dadansoddwyd yr ymatebion i’r ymgynghoriad arlein a phapur gan ddefnyddio meddalwedd Arolwg SNAP.

Yna syntheseiddiwyd y deunydd a gasglwyd ac fe’i defnyddiwyd fel sail ar gyfer y dadansoddiad SWOT, yn Adran 3.1 y Strategaeth hon a’r Tabl Rhesymeg Ymyrryd ar gyfer ardal wledig Sir Ddinbych.

<u>Rhannu gwybodaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu wrth gyflenwi</u>

Bydd Cadwyn Clwyd yn hwyluso ac yn cefnogi gwaith y GGLl i ymgysylltu â chyfathrebu yn ystod y cyfnod gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys:

- Datblygu gwefan Cadwyn Clwyd ymhellach a’i diweddaru’n gyson â hysbysiadau, straeon newyddion, erthyglau a deunyddiau astudiaethau achos.

- Cynhyrchu a dosbarthu e-gylchlythyr Cadwyn Clwyd yn rheolaidd.

- Paratoi a lledaenu deunydd astudiaethau achos yn hyrwyddo gwaith LEADER a’r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd.

- Hwyluso cyfarfodydd a chynadleddau i ledaenu astudiaethau dichonoldeb, adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau ynghyd â datganiadau rheolaidd i’r wasg.

## 7.2 Dadansoddiad SWOT i ddangos anghenion datblygu a photensial yr ardal arfaethedig

*(Dim cyfyngiad o ran nifer y geiriau – ar ffurf tabl)*

Paratowyd y dadansoddiad SWOT a ganlyn ar sail ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn ardal wledig Sir Ddinbych a dadansoddiad o ddogfennau polisi, strategaeth ac ymchwil perthnasol.

Grwpiwyd y deunydd yn ôl pum thema LEADER.

### Thema 1 – Ychwanegu Gwerth i Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Amryw o asedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth (e.e. AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy,[61] Safle Treftadaeth y Byd Traphont Pontcysyllte a chamlas Llangollen,[62] Rheilffordd Llangollen, yr Eisteddfod Ryngwladol, afon Dyfrdwy, Coedwig Llandegla, Dolbelydr: eiddo hanesyddol a gydnabyddir gan y Landmark Trust[63] a Pharc Gwledig Loggerheads) – sydd oll yn bwysig wrth i ardal wledig Sir Ddinbych ddenu ymwelwyr i'r ardal.[64]<br><br>Gan fod ardal Sir Ddinbych mor agos at gytrefi dinesig mawr Lloegr, yn benodol Manceinion a Lerpwl, mae'n lle deniadol a chymharol hawdd i'w gyrraedd i fwynhau adnoddau naturiol a diwylliannol y sir.[65] | Canfyddiad ymhlith rhai rhanddeiliaid (a ddaeth i'r amlwg yn y broses ymgynghorol) mai ffin weinyddol yw Sir Ddinbych ac nad yw'n golygu llawer i ymwelwyr sy'n dymuno ymweld â'r ardal. Efallai nad hyrwyddo 'brand' Sir Ddinbych felly yw'r strategaeth fwyaf synhwyrol na chynaliadwy o ran codi proffil y prif adnoddau naturiol a diwylliannol.[69]<br><br>Canfyddiad ymhlith rhai rhanddeiliaid (a ddaeth i'r amlwg yn y broses ymgynghorol) fod trefi a 'brandiau' Sir Ddinbych yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn hytrach na hyrwyddo 'pecyn' ehangach yn gysylltiedig â'r AHNE neu asedau eraill.[70] |

[61] Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
[62] Yn 2009 cafodd darn 11 milltir o hyd o'r gamlas ei ddynodi yn Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO.
[63] Gweler: http://www.landmarktrust.org.uk/search-and-book/properties/dolbelydr-6288/
[64] Tystiolaeth: Amcangyfrifir bod twristiaeth wedi dod â refeniw o £314 miliwn i economi Sir Ddinbych yn 2012 ac wedi cynnal dros 5,000 o swyddi yn y sir. Hefyd, mae twristiaeth yn cynnal gwasanaethau ac isadeiledd lleol sydd o fudd i bobl leol ac yn helpu i hybu delwedd gadarnhaol o'r Sir i'r byd tu allan. Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych 2014-2017. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 2. Mae'r data a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar STEAM 2012.
[65] Tystiolaeth: Dengys data Great Britain Tourism Survey 2013 fod mwyafrif (38%) yr ymwelwyr Prydeinig a ddaeth i ogledd Cymru yn hannu o ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr/Glannau Mersi (sail 3602).

| | |
|---|---|
| Amgylchedd eithriadol sy'n gwneud Sir Ddinbych yn lle deniadol i fyw a magu teulu.[66]<br><br>Mae Rhuthun yn ganolbwynt o ran y celfyddydau, crefftau a diwylliant yn y sir ac mae Canolfan Grefft Rhuthun yn ased nodedig[67] mewn perthynas â darparu gofod i fusnesau crefft ddatblygu a gwerthu eu nwyddau ac fel atyniad i ymwelwyr ar ei phen ei hun.[68] | Diffyg arwyddion er mwyn annog pobl i adael yr A55 ac ymweld â rhannau o ardal wledig Sir Ddinbych.[71] |
| **Cyfleoedd**<br><br>Cyfleoedd i wneud mwy o asedau naturiol a diwylliannol ardal wledig Sir Ddinbych er mwyn targedu a datblygu marchnadoedd arbenigol a gwerth uchel (e.e. cerdded, seiclo a gwylio adar).[72]<br><br>Cyfleoedd i gydweithio gydag awdurdodau cyfagos yng ngogledd Cymru (e.e. trwy Gynghrair Mersi/Dyfrdwy) i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir yn sgil agosatrwydd Sir Ddinbych i gytrefi mawr dinesig.[73] | **Bygythiadau**<br><br>Lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal wledig Sir Ddinbych fel y cofnodwyd yn data'r cyfrifiad diweddaraf.[77]<br>Pobl ifanc yn symud allan o ardal wledig Sir Ddinbych o ran cydbwysedd sosio-economaidd y sir a'r economi wledig.[78]<br><br>Datblygu anghyfrifol neu anghynaliadwy a allai arwain at ddifrodi'r amgylchedd naturiol (e.e. planhigion ac anifeiliaid).[79] |

[69] Tystiolaeth: Dywed Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych fod angen 'Hyrwyddo Sir Ddinbych drwy frand Gogledd-ddwyrain Cymru'. Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych (2014-2017). Cyngor Sir Ddinbych. Tudalennau 4 a 12.

[70] Tystiolaeth: Yn ôl Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023): 'Bydd yn bwysig … sicrhau fod brandiau a negeseuon unigol yn glir, yn cael eu deall ac nad ydynt yn gwrthdaro na'n cystadlu'n ddiangen gyda'i gilydd'. Tudalen 26.

[66] Tystiolaeth: mae 84.68% (sail 2056) o drigolion Sir Ddinbych yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw ynddi. Ffynhonnell: Arolwg Trigolion Sir Ddinbych 2013 – Canlyniadau ar gyfer y Sir. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 5.

[67] http://www.ruthincraftcentre.org.uk/

[68] Tystiolaeth: 'Wrth i Ganolfan Grefft Rhuthun ymddangos yn dilyn datblygiad pensaernïol, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried bod angen cefnogi'r gwaith o ehangu gofodau arddangos yng Nghymru a'u rhyngberthynas a chydnabod yr angen i sicrhau mwy o gymorth i ddatblygu gwaith curadurol mewn perthynas â Celf a Chrefft yn benodol'. Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru. Gweler: http://www.artswales.org.uk/arts-in-wales/artforms/applied-art-and-craft/about-applied-art-and-craft

[71] Tystiolaeth: Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych yn nodi'r angen am 'well arwyddion ac edrychiad ar gyfer mynedfeydd i drefi a phentrefi i wella'r edrychiad a'r ymdeimlad o groeso er mwyn annog pobl i aros'. Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych (2014-2017). Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 7.

[72] Tystiolaeth: Nodir bod twristiaeth awyr agored a gweithgaredd yn cynnig cyfle i archwilio a hybu twf ac amrywiaeth yn Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013 – 2023. Tudalen 20.

[73] Tystiolaeth: Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych yn nodi'r angen i 'sicrhau bod y dull cydlynol o reoli cyrchfan yn cael ei ddatblygu a'i atgyfnerthu'. Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych (2014-2017). Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 4.

| | |
|---|---|
| Cyfle i fanteisio ar fuddion masnachol posibl y Gymraeg, yn enwedig ymhlith busnesau bach a microfusnesau.[74] Cyfle i gefnogi'r gwaith o adfywio hen asedau naturiol e.e. ailgomisiynu hen reilffyrdd yn lwybrau seiclo.[75]<br><br>Ystyried y posibilrwydd o gael y Landmark Trust i achredu mwy o eiddo.[76] | |

**Thema 2 – Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Mae trefi ardal wledig Sir Ddinbych (e.e. Llangollen) yn elwa ar y ffaith eu bod yn cynnig profiad adwerthu unigryw h.y. cynnig cynnyrch lleol. Mae'r ffaith nad yw rhai o'r trefi hyn, hyd yma, wedi'u 'boddi' gan gwmnïau mawr a siopau cadwyn y sector adwerthu yn gryfder.[80] | Prinder ymddangosiadol unrhyw ofod 'meithrin' o ansawdd uchel â chysylltiadau digidol da i gefnogi creu busnesau newydd.[81]<br><br>Methiant ymddangosiadol y farchnad o ran y cyllid sydd ar gael ar gyfer microfusnesau a busnesau bach yn Sir |

[77] Tystiolaeth: Roedd 24.6% o boblogaeth Sir Ddinbych yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, gostyngiad o 1.8% er 2001 pan oedd y ganran yn 26.4%. Ffynhonnell: data cyfrifiadau 2011 a 2001. Ar gael ar wefan www.statswales.wales.gov.uk

[78] Tystiolaeth: Nodir bod allfudiad pobl ifanc o Sir Ddinbych yn peryglu cynaliadwyedd cymunedau yn Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023, Tudalen 24.

[79] Tystiolaeth: Dywed Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Dirweddau Gwarchodedig y dylid defnyddio'r dynodiad AHNE i lywio'r gwaith o reoli newid yn gadarnhaol er mwyn hwyluso datblygiadau addas gan gynnal ansawdd y tirwedd ar yr un pryd. Ffynhonnell:

[74] Tystiolaeth: Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd yn argymell 'y dylid gweithredu ar y cyd ar ddatblygu economaidd a'r iaith drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol. Byddai hyn yn fodd i ddynodi 'parthau iaith economaidd arbennig'.' Ffynhonnell: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (Ionawr 2014). Llywodraeth Cymru. Tudalen 5.

[75] Tystiolaeth: Nodwyd bod angen mwy o waith i ddatblygu llwybrau, gan gynnwys llwybrau seiclo haws oddi ar y lôn er mwyn datblygu a manteisio i'r eithaf ar dwristiaeth seiclo yn Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy a Chynllun Gweithredu AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2015-2020, Tudalen 32.

[76] Tystiolaeth: 'The Landmark Trust is unique in providing high quality tourist accommodation in unusual historic erstwhile buildings at risk'. Ffynhonnell: 'Tourism in Northern Ireland and its Economic Impact and Benefits'. Trydydd Adroddiad y Sesiwn 2006-2007. Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon.

[80] Tystiolaeth: Yn ôl Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023) (o dan Ffrwd waith 5.1), nodir y dylid datblygu 'cynlluniau i hyrwyddo a helpu mân-werthwyr annibynnol'. Tudalen 24.

[81]Tystiolaeth: Yn ôl Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023): 'Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn cyfyngu ar ddiddordeb datblygwyr mewn creu gofod newydd ar gyfer masnach a busnes' ac 'mae diffyg tir ac eiddo busnes parod ar gael mewn sawl ardal ar draws y sir. Amlygodd dadansoddiad y Cynllun Datblygu Lleol alw am gyflenwad o 50 ha o dir tan 2021'. Tudalen 12.

| | |
|---|---|
| | Ddinbych[82]. |
| **Cyfleoedd**<br><br>Y cyfle i annog busnesau lleol, yn enwedig yn y sectorau bwyd, twristiaeth, lletygarwch ac adwerthu i gydweithio'n fwy effeithiol – gan arwain at gadwyni cyflenwi byrrach ond hefyd cyfathrebu 'cynnig' Sir Ddinbych yn well a fyddai'n annog ymwelwyr i aros am gyfnod hwy a gwario mwy.[83]<br><br>Cyfle i ddangos manteision hunangyflogadwyaeth ac entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc yn ardal wledig Sir Ddinbych.[84] | **Bygythiadau**<br><br>Archfarchnadoedd yn agor mewn trefi gwledig, gan achosi busnesau lleol i symud allan a thynnu oddi wrth gymeriad unigryw'r cynnig adwerthu.[85]<br><br>Ystyrir bod cau tafarndai gwledig (y mae nifer ohonynt bron â pheidio a bod yn hyfyw) yn fygythiad nid yn unig yn nhermau llewyrch y sector busnes yn ardal wledig Sir Ddinbych ond hefyd o safbwynt cydlyniad cymunedol a rôl bwysig y dafarn i ddod â'r gymuned ynghyd.[86] |

**Thema 3 – Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Mae gan Sir Ddinbych sylfaen gref o wirfoddolwyr a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol gweithgar.[87] | Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael (yn enwedig diffyg trafnidiaeth gyhoeddus integredig, effeithiol) yn rhwystr i lif a symudiad nwyddau, pobl a |

[82] Tystiolaeth: Yn ôl Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023): 'Mae cael mynediad i gyllid a chredyd busnes yn parhau i fod yn broblem. Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yn parhau i ganfod fod mynediad gwael i gyllid yn rhwystr rhag twf ei aelodau. Mae cost cyllid hefyd wedi bod yn broblem i nifer o fusnesau bach. Mae llif arian yn dal yn her i fusnesau, yn enwedig busnesau bach a busnesau bach iawn'. Tudalen 15.

[83] Tystiolaeth: Mae Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (2015-2020) yn argymell 'Gweithio gyda gweithredwyr gweithgareddau i gydlynu, rheoli a hyrwyddo'r ardal'. Tudalen 33. Tystiolaeth: Dywed Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych y gellid 'cryfhau cyfranogiad gan fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth megis adwerthu'. Ffynhonnell: Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych (2014-2017). Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 6.

[84] Tystiolaeth: Mae Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych (2013-2023) (o dan Ffrwd waith 4.4) yn nodi menter ac entrepreneuriaeth fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer pobl ifanc ac yn argymell 'i. datblygu canolbwyntiau/clybiau/canolfannau adnoddau menter ymhellach, ii. Cynllun mentora /entrepreneuriaeth, iii. Cynllun cymhelliant/bwrsariaeth menter/entrepreneuriaeth'.

[85] Tystiolaeth: Dengys gwaith ymchwil y gall archfarchnadoedd achosi 'newid mawr' mewn arferion siopa gan 'symud gwariant o ganol y dref i ddatblygiadau archfarchnadoedd newydd'. Ffynhonnell: FSB Scotland. The Effects of Supermarkets on Existing retailers. Roger Tym and Partners. Rhagfyr 2006. Tudalen 43.

[86] Tystiolaeth: Dengys gwaith ymchwil 'bod Tafarndai yn y Deyrnas Unedig yn cael eu hystyried yn aml fel canolfannau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, sydd yn amlwg iawn mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig lle maent yn chwarae rhan hanfodol i ysgogi gweithgaredd sosio-economaidd. Yn yr ardaloedd hyn, mae tafarndai yn dir ffrwythlon ar gyfer cydlyniad cymunedol ac maent yn aml wrth galon gweithgareddau cymunedol ehangach. Ffynhonnell: The Impact of Pubs on the Level of Socio-Economic Activity in Rural Parishes: An Econometric Study. Mount, M a Cabras, I. Regional Studies Association European Conference, Finland. Mai 2013.

[87] Tystiolaeth: Cydnabyddir bod 'sector gwirfoddol a thrydydd sector Sir Ddinbych yn gryf ac yn gwneud cyfraniad positif i fywyd cymunedol y sir'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 7.

| | |
|---|---|
| Ceir ymdeimlad cryf o undod cymunedol mewn rhannau o ardal wledig Sir Ddinbych – gan gynnig y potensial i harneisio ysbryd cymunedol er mwyn gyrru datblygiad a 'chamu i'r bwlch' pan fydd gwasanaethau cyhoeddus dan fygythiad.<br><br>Ceir enghreifftiau da o fentrau cymdeithasol yn ardal wledig Sir Ddinbych lle mae'r gymuned wedi dod at ei gilydd i gynnal neu ail-agor gwasanaethau pwysig e.e. tafarn gymunedol yn Llanarmon[88]. | gwasanaethau. Mae hefyd yn atal pobl rhag cael mynediad at wasanaethau sylfaenol a gall achosi arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.[89]<br><br>Ansawdd gwael a bwriad i gau mwy o gyfleusterau cyhoeddus ar draws rhannau o ardal wledig Sir Ddinbych. Mae hyn yn rhoi argraff wael o Sir Ddinbych i ymwelwyr.[90] |
| **Cyfleoedd**<br><br>Y cyfle i gryfhau ac adeiladu ar gydweithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol – yn benodol gyda Sir y Fflint a Wrecsam gan fabwysiadu dull llai ynysig wrth gyflenwi gwasanaethau a chreu mwy o arbedion effeithlonrwydd.[91]<br><br>Ailddefnyddio adeiladau gwag e.e. y rheini sydd ym mherchnogaeth y Cyngor at ddibenion cymdeithasol ac economaidd. Cyfleoedd ar gyfer mwy o fentrau trosglwyddo asedau cymunedol | **Bygythiadau**<br><br>Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn golygu mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus (e.e. gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol).[93]<br><br>Gwelir ad-drefnu llywodraeth leol fel bygythiad posibl yn benodol hyd nes y gwneir penderfyniad ynglŷn â'r drefn ar gyfer y dyfodol o ran buddsoddi mewn gwasanaethau allweddol.[94] |

[88] Tystiolaeth: Dywed yr AHNE mai ei bwriad yw 'cefnogi a hyrwyddo prosiectau cymdeithasol/perchnogaeth gymunedol a mentrau megis 'The Pub's the Hub'/ Y Dafarn yw'r Galon'. Ffynhonnell: Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd 2009-2014. Tudalen 70.

[89] Tystiolaeth: Dywed Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych ei fod yn bwriadu 'gwella ymwybyddiaeth ac annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a mentrau trafnidiaeth eraill er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag arwahanrwydd a mynediad' er mwyn cwrdd ag anghenion cymunedau gwledig. Ffynhonnell: Sir Ddinbych Y Cynllun Mawr: Rhan 1, 2011-2014. Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych. Tudalen 29. 'Mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn gyfyngedig yn yr ardaloedd mwyaf gwledig ac yn dameidiog ar draws y sir gyfan'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 11.

[90] Tystiolaeth: Mae gwella meysydd parcio, toiledau a llwybrau i gerddwyr yn flaenoriaeth yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych 2014-2017, Tudalen 7.

[91] Tystiolaeth: Mae'r ddogfen Uchelgais Economaidd: Strategaeth ar gyfer Newid gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, yn cydnabod 'fod rhywfaint o ddyblygu ar draws …awdurdodau lle byddai cydweithio yn golygu y gellid defnyddio'r adnoddau hyn mewn meysydd eraill.'(Tudalen 6).

[93] Tystiolaeth: Disgwylir y bydd nifer y bobl dros 85 oed yn dyblu yn Sir Ddinbych rhwng 2013 a 2033. Ffynhonnell: Cynllun Mawr Sir Ddinbych: Rhan 1, 2011-2014. Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych. Tudalen 12.

| | |
|---|---|
| (CAT).[92] | |

**Thema 4 – Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymunedol**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Gallai topograffeg Sir Ddinbych fod yn addas iawn ar gyfer cynhyrchu pŵer ar lefel ficro drwy ddefnyddio ynni hydro, gwynt a thechnolegau eraill.[95] | Cyfyngiadau (e.e. costau uchel) cysylltu cynlluniau ynni adnewyddadwy micro â'r Grid Cenedlaethol. Gall hyn gael effaith negyddol ar hyfywedd cynlluniau micro a phryderon hefyd fod ceblau ar y tir yn cael effaith negyddol ar ansawdd y tirwedd naturiol.[96] |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Archwilio a threialu dulliau o gynhyrchu ynni hydro nad ydynt yn ymwthiol ar lefel ficro.[97]<br><br>Cyfleoedd i ymchwilio i dreulio anaerobig (e.e. o wastraff fferm) fel dull o gynhyrchu ynni adnewyddadwy micro.[98] | Byddwn yn 'colli tir' ac yn 'colli' cyfleoedd (rhai masnachol ac amgylcheddol) a gyflwynir gan dechnolegau ynni adnewyddadwy oherwydd diffyg buddsoddiad a/neu wrthwynebiad lleol i gynlluniau peilot penodol.[99] |

[94] Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn argymell fel 'man cychwyn' y dylai Cynghorau Sir Conwy a Sir Ddinbych uno. Tudalen 94. Adroddiad Llawn. Ionawr 2014.

[92] Tystiolaeth: Dywed Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych ei fod yn bwriadu 'cefnogi cymunedau i gymryd rheolaeth o asedau cymunedol mewn ardaloedd gwledig'. Ffynhonnell: Cynllun Mawr Sir Ddinbych: Rhan 1, 2011-2014. Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych. Tudalen 29.

[95] Tystiolaeth: Amcangyfrifir bod hyd at 43 'safle realistig' a allai gynhyrchu ynni hydro yn Sir Ddinbych, er y byddai cyfanswm yr ynni a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan y cynlluniau hyn yn eithaf bach. Hefyd, mae potensial ar gyfer cynlluniau ynni gwynt mawr (gan ddefnyddio tyrbinau) e.e. oddi ar arfordir gogledd Sir Ddinbych. Ffynhonnell: Denbighshire Hydro Energy Potential Assessment. Mawrth 2011. Renewable Design Consultants ar ran Cadwyn Clwyd. Tudalen 3.

[96] Tystiolaeth: 'The cost of a hydro installation is highly site specific and depends on civil engineering and grid connection issues as well as the turbine type and size'. Ffynhonnell: Factsheet 9: Small-scale hydro for businesses. Live and Work Rural. Tudalen 2.

[97] Tystiolaeth: 'Micro-hydro power development has some key advantages, being less intrusive in the landscape than wind power, at a scale that can be considered by individuals and communities (especially farmers) for their direct benefit and the technology remains as the most efficient and reliable means of extracting natural energy compared to other forms of renewable electricity such as solar photovoltaics (PV).' Ffynhonnell: Denbighshire Hydro Energy Potential Assessment. Mawrth 2011. Renewable Design Consultants ar ran Cadwyn Clwyd. Tudalen 4.

[98] Tystiolaeth: 'Anaerobic Digestion is well suited to wet agricultural wastes, residues and crops. Agricultural AD is defined as facilities using only feedstock derived on-farm, and therefore not subject to waste regulations. There are a number of opportunities, ranging from small-scale on-site digestion and energy use, to larger centralised facilities taking feedstock from a number of farms to benefit from economies of scale.' Ffynhonnell: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Gweler: http://www.biogas-info.co.uk/agri.html

[99] Tystiolaeth: 'The huge potential of community green energy schemes is being hampered by a lack of clear policy and restricted access to finance' and 'there seems to be a lack of energy literacy in terms of understanding where energy comes from…this has meant that it is not seen as a local responsibility, and project plans have suffered from local opposition as a result'. Ffynhonnell: Green Alliance Policy Insight. Constituency Voices: realising the potential of community energy. Kyrke-Smith, H et al. Awst 2013

| | |
|---|---|
| | |

**Thema 5 – Datblygu Technoleg Ddigidol**

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Cynllun Cyflymu Cymru a chyflwyno rhwydwaith band eang cyflym iawn yn ardal wledig Sir Ddinbych.<br><br>Gwasanaeth dehongli ymwelwyr arlein 'Anturiaethau Digidol Sir Ddinbych'.[100] | Ystyrir bod cysylltiadau digidol a band eang yn enwedig (o ran cyflymder a dibynadwyedd) yn 'dameidiog' yn ardal wledig Sir Ddinbych. Mae hyn yn rhwystr i greu a thyfu busnesau a hefyd i fabwysiadu patrymau gwaith mwy hyblyg a modern.[101] |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Cyfleoedd i gryfhau'r graddau y bydd busnesau yn ardal wledig Sir Ddinbych yn manteisio i'r eithaf ar dechnoleg a'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol, at ddibenion masnachol.[102] | Bydd busnesau Sir Ddinbych yn colli tir o ran eu defnydd o dechnoleg ddigidol.[103]<br><br>Gallai busnesau benderfynu adael Sir Ddinbych gan eu bod yn ystyried eu bod yn cael eu dal yn ôl gan seilwaith digidol gwael.[104]<br><br>Allgáu digidol – yn enwedig wrth i wasanaethau gael eu cau (e.e. banciau yn cau) gan olygu y gallai'r rheini nad ydynt yn llythrennog o ran TGCh deimlo'n ynysig.[105] |

Mae dadansoddiad sefyllfa y Strategaeth hefyd yn cydnabod Dogfen Arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd gwasanaethau'r Comisiwn: Posibiliadau yn y rhaglenni Datblygu Gwledig i fynd i'r afael â'r argyfwng dyngarol a wynebir gan ffoaduriaid sy'n

[100] Gweler: http://www.digidolSir Ddinbych.co.uk/
[101] Tystiolaeth: Sgôr gyffredinol Sir Ddinbych ar gyfer band eang yw 4 (5 yw'r sgôr waethaf). Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 12.
[102] Tystiolaeth: Er mwyn 'marchnata Sir Ddinbych yn effeithiol', cydnabyddir bod angen defnyddio dulliau hyrwyddo newydd, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 27.
[103] Tystiolaeth: 'O'i gymharu ag ardaloedd eraill, nid yw gweledigaeth Sir Ddinbych o ran sut y gall technoleg ddigidol fod o fudd i'w busnesau a'i thrigolion wedi'i datblygu'n ddigonol'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 12.
[104] Tystiolaeth: Cydnabyddir yr angen am 'rwydweithiau cyfathrebu digidol a llais modern sy'n diwallu anghenion busnesau, trigolion ac ymwelwyr'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 11.
[105] Tystiolaeth: Mae Sir Ddinbych yn bwriadu datblygu 'Cynllun 'Sir Ddinbych Ddigidol' gan gynnwys cymell defnydd … gan gynnwys ar draws gwasanaethau'r Cyngor'. Ffynhonnell: Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol Sir Ddinbych 2013-2023. Cyngor Sir Ddinbych. Tudalen 12.

| |
|---|
| dod i'r UE, Haf 2016 mewn perthynas â rôl EAFRD / LEADER i gefnogi ffoaduriaid lle bo hynny'n gymwys. |

## ADRAN 8 – THEMÂU TRAWSBYNCIOL

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch sut y bydd y Grŵp Gweithredu Lleol yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at themâu Trawsbynciol Cyfle Cyfartal, Datblygu Cynaliadwy a Threchu Tlodi. |
| Yn gysylltiedig ag | Adrannau 3.6 a 3.7 Canllawiau'r Strategaeth, Mehefin 2014 |

### 8.1 Themâu Trawsbynciol

*(1,500 gair)*

**Cyfle Cyfartal a'r Iaith Gymraeg**

Bydd y GGLl a Cadwyn Clwyd fel y corff gweinyddol yn sicrhau y gweithredir mewn ffordd ragweithiol i wneud y mwyaf o gyfleoedd mewn perthynas â chyfraniad y Strategaeth i bob un o'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2014-2020[106] ac sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn y cyd-destun hwn, bydd aelodau'r GGLl a staff Cadwyn Clwyd yn cael eu briffio'n llawn ar y nodweddion gwarchodedig ar ddechrau'r Rhaglen a rhoddir ystyriaeth i sut y gall pob un o'r gweithgareddau a ariennir gan LEADER wneud cyfraniad cadarnhaol i'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Fel rhan o'r broses hon bydd Cadwyn Clwyd (wrth werthuso camau gweithredu/prosiectau yn dechnegol) ac yna aelodau'r GGLl, yn sicrhau na fydd y camau gweithredu sy'n rhan o'r Strategaeth hon ac a ariennir gan LEADER yn cael unrhyw effaith negyddol anghymesur ar y grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Felly, bydd ystyriaeth o effeithiau posibl camau gweithredu a ariennir gan LEADER ar y grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn ystyriaeth allweddol i'r GGLl yn ei rôl wrth gymeradwyo camau gweithredu penodol. Mae'r grwpiau â nodweddion gwarchodedig fel a ganlyn:

- Yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.
- Oedran (yn ymdrin â phob grŵp oedran, gan roi ystyriaeth arbennig i blant o dan 16 oed, pobl ifanc 16-24 oed, a phobl hŷn 65 oed a throsodd).
- Anabledd (a all gynnwys pobl â nam ar y synhwyrau, nam symudedd, anableddau dysgu ac anableddau lles meddyliol).
- Ailbennu rhywedd (gan gynnwys pobl sydd ar unrhyw gam yn y therapi ailbennu rhywedd).

[106] Dogfen Ymgynghorol: Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2014-2020. Mai 2013. Lluniwyd gan MottMacdonald ac Old Bell 3 Cyf. ar ran Llywodraeth Cymru.

- Priodas a phartneriaeth sifil (gyda phwyslais ar wahaniaethu ar sail a yw rhywun yn briod neu mewn partneriaeth sifil – nid yw pobl sengl wedi'u cynnwys yn y nodwedd hon).

- Beichiogrwydd a mamolaeth (yn cynnwys menywod beichiog a mamau sy'n bwydo);

- Hil ac ethnigrwydd (a all gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd).

- Crefydd neu gred (a all gynnwys pob crefydd, ffydd neu grŵp cred, gan gynnwys diffyg cred).

- Rhyw / rhywedd (gan gynnwys dynion a merched).

- Tueddfryd rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, a lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol (LGB)).

Wrth lunio'r strategaeth hon, rydym wedi cymryd sylw o'r argymhellion a amlinellir yn y ddogfen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r CDG.[107] O ganlyniad, bydd y GGLl yn:

- Ystyried a theilwra camau gweithredu a ariennir gan LEADER lle bo hynny'n briodol er mwyn cymryd ystyriaeth o anghenion mynediad grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

- Datblygu prosesau monitro trylwyr sy'n cynnwys dangosyddion cydraddoldeb penodol.

- Sicrhau y caiff effeithlonrwydd camau gweithredu'r Strategaeth a LEADER ei ystyried yn elfen allweddol o fanylebau'r gwerthusiadau Canol Tymor (ffurfiannol) a Diwedd y Rhaglen (crynodol).

- Annog aelodau'r GGLl a rhanddeiliaid eraill (yn enwedig y rheini sy'n elwa ar fuddsoddiad LEADER) i ddatblygu, gwella a chryfhau eu cymwysterau cydraddoldeb.

- Ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r bobl sydd â nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod y grwpiau hynny yn manteisio i'r eithaf ar fuddion y Strategaeth a buddsoddiad LEADER.

- Yn dilyn "Dogfen Arweiniad gwasanaethau'r Comisiwn Ewropeaidd: Posibiliadau yn y rhaglenni Datblygu Gwledig i fynd i'r afael â'r argyfwng dyngarol a wynebir gan ffoaduriaid sy'n dod i'r UE" Haf 2016 – bydd thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal y GGLl yn ystyried Canllawiau'r Comisiwn ac yn integreiddio cymorth a chamau gweithredu i Grwpiau o Ffoaduriaid sy'n

[107] Ibid. Tudalen 52.

agored i niwed, lle bo hynny'n berthnasol.

Mewn perthynas â bodloni gofynion **Dogfen Cyngor Comisiynydd y Gymraeg, Grantiau, benthyciadau a nawdd,**[108] mae'r GGLl a Cadwyn Clwyd fel y corff gweinyddol yn ymrwymo i:

- Sicrhau bod holl aelodau'r GGLl a swyddogion perthnasol Cadwyn Clwyd yn gyfarwydd â nodyn cyngor y Comisiynydd.
- Sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob gweithgaredd a bod y Gymraeg yn cael ei hybu a'i hwyluso yng nghyd-destun holl weithgareddau'r Strategaeth.
- Sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am arian neu gymorth LEADER yn sgil unrhyw un o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth hon yn cael gwybodaeth glir am y Gymraeg gan gynnwys y gofynion o ran y Gymraeg a sut y caiff y gofynion hynny eu hystyried wrth asesu ceisiadau am arian LEADER.
- Sicrhau bod pob cais (gan gynnwys ffurflenni cais y prosiect a deunyddiau cysylltiedig) am arian LEADER yn gofyn i'r ymgeiswyr esbonio pa ddefnydd a wneir o'r Gymraeg yn y cam gweithredu neu'r ymyriad a nodir.
- Sicrhau bod llythyrau yn cadarnhau y dyrannwyd arian LEADER yn gosod amodau eglur mewn perthynas â'r Gymraeg fel rhan o'r cynnig.
- Sicrhau bod ymgeiswyr a rhanddeiliaid yn derbyn cyngor er mwyn eu helpu i ddeall y gofynion o ran defnyddio a hybu'r Gymraeg yn eu gweithgareddau a ariennir gan LEADER.
- Sicrhau y caiff effaith y Strategaeth a gweithgareddau a ariennir gan LEADER eu monitro a'u dadansoddi fel rhan o'r gwaith monitro parhaus a'u cynnwys yn llawn ym methodolegau'r gwerthusiadau ffurfiannol a chrynodol.
- Sicrhau yr ymgynghorir â swyddfa'r Comisiynydd os bydd angen mwy o ganllawiau neu gyngor.

**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

Mewn perthynas â threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol, rydym wedi nodi mai dull gweithredu Llywodraeth Cymru, a amlinellir yn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru, yw 'cyflwyno mesurau wedi'u targedu, gan helpu'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi a'r rhai nad ydynt yn debygol iawn o allu newid eu hamgylchiadau.'[109] Yn y cyd-destun hwn, mae'r GGLl yn cydnabod na fydd yn gallu dileu tlodi ar ei ben ei hun (h.y. trwy fuddsoddi arian LEADER). Rhaid i hyn fod yn rhan o becyn ehangach o fesurau ac ymyriadau.

[108] Grantiau, benthyciadau a nawdd: Ystyried y Gymraeg. Comisiynydd y Gymraeg. 2 Ebrill 2012.
[109] Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 Cynigion terfynol. Chwefror 2014. Llywodraeth Cymru. Tudalen 51.

Bydd y Strategaeth hon a buddsoddiad arian LEADER felly yn gwneud cyfraniad cadarnhaol trwy fynd i'r afael â rhai o'r rhesymau sylfaenol dros dlodi, amddifadedd ac allgáu mewn cymunedau gwledig (fel y'u nodir yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru.[110]) Bydd yn gwneud hyn drwy gymryd y camau a ganlyn:

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n helpu i fynd i'r afael â **thlodi tanwydd ymhlith pobl hŷn sy'n agored i niwed a phobl anabl** fel yr amlygir yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y CDG.[111] Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 4 a chamau gweithredu SMART 8 a 9 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n **creu cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth nac addysg** (NEET). Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 2 a chamau gweithredu SMART 2 a 5 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n **cynnal a gwella mynediad cyfartal at wasanaethau sylfaenol** er mwyn helpu i fynd i'r afael ag allgáu ariannol a chymdeithasol. Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 3 a chamau gweithredu SMART 6 a 7 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag **allgáu digidol**. Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 5 a chamau gweithredu SMART 10 ac 11 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

**Datblygu Cynaliadwy**

Bydd y GGLl a Cadwyn Clwyd fel y corff gweinyddol yn sicrhau y gweithredir mewn dull rhagweithiol i wneud y gorau o'r cyfleoedd yn nhermau cyfraniad y Strategaeth i ddatblygu cynaliadwy fel y nodir yn Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru.[112]

Wrth lunio'r Strategaeth hon, rydym wedi ystyried yr Adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer CDG 2014-2020[113] ac wedi nodi'r casgliad y bydd 'potensial i warchod a gwella gwasanaethau ecosystemau a gwerthoedd bioamrywiaeth, a materion yn ymwneud â diwylliant, treftadaeth a'r hinsawdd'.[114]

Yn y cyd-destun hwn, caiff aelodau'r GGLl a Cadwyn Clwyd eu briffio'n llawn ar ddatblygu cynaliadwy ar ddechrau'r Rhaglen a rhoddir ystyriaeth i sut y gall pob

---

[110] Ibid. Tudalen 51.
[111] Dogfen Ymgynghorol: Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2014-2020. Mai 2013. Tudalen 20 ac eto ar Dudalen 25.
[112] Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 Cynigion terfynol. Chwefror 2014. Llywodraeth Cymru. Tudalen 29 – Themâu Trawsbynciol, Datblygu Cynaliadwy.
[113] Dogfen Ymgynghorol. Asesiad Amgylcheddol Srategol: Adroddiad Amgylcheddol, 2014-2020. Cynllun Datblygu Gwledig. Mawrth 2013. Prifysgol Bangor ac Old Bell 3 Cyf. ar ran Llywodraeth Cymru.
[114] Ibid. Tudalen 130.

gweithgaredd a ariennir gan LEADER wneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygu cynaliadwy. Bydd y broses hon hefyd yn cynnwys ystyriaeth ofalus gan Cadwyn Clwyd (wrth werthuso camau gweithredu/prosiectau yn dechnegol) ac yna aelodau'r GGLl er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol anghymesur o ran datblygu cynaliadwy ac ystyriaethau amgylcheddol.

Bydd y Strategaeth hon a buddsoddiad arian LEADER yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygu cynaliadwy drwy gymryd y camau a ganlyn:

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n cefnogi **rheoli cadwraeth, defnydd cynaliadwy a mwynhad o'r tirwedd naturiol a gwelliannau i'r amgylchedd**.  Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol i hyn drwy Amcan Penodol 1 a chamau gweithredu SMART 1, 2 a 3 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn cysyniadau cyn-fasnachol a threialu busnesau newydd sy'n **gwella'r amgylchedd, yn hybu cynnyrch lleol ac yn hybu'r amgylchedd naturiol fel ased masnachol cadarnhaol.** Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 2 a chamau gweithredu SMART 4 a 5 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n **cefnogi cynlluniau trafnidiaeth cynaliadwy a charbon isel, trosglwyddo asedau a chael gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn mentrau cymdeithasol er mwyn helpu i gyflenwi gwelliannau corfforol a naturiol.** Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 3 a chamau gweithredu SMART 6 a 7 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n **cefnogi, cynghori a threialu/profi technolegau ynni adnewyddwy a gaiff eu harwain gan y gymuned, lledaenu gwybodaeth am ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol a chynorthwyo i ailfuddsoddi refeniw a ddaw yn sgil ynni adnewyddadwy mewn ffordd gynaliadwy.** Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 4 a chamau gweithredu SMART 8 a 9 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

- Buddsoddi mewn camau gweithredu sy'n annog defnyddio a chaffael **caledwedd TGCh hynod effeithiol Energy Star ac sy'n defnyddio offer wedi eu hailgylchu a'u hailddefnyddio lle bo'n briodol.** Bydd cyfleoedd penodol i gyfrannu canlyniadau cadarnhaol at hyn drwy Amcan Penodol 5 a chamau gweithredu SMART 10 ac 11 y Strategaeth hon (gweler adran 3.1).

## 8.2 Cymorth i'r Ucheldir

*(1,000 gair)*

Bydd y GGLl yn targedu'r ardaloedd yn yr ucheldir a ddiffinnir fel Ardaloedd Dan Anfantais Fawr yn ardal wledig Sir Ddinbych, sef Hiraethog, Mynyddoedd y Berwyn, Bryniau Clwyd ac Eglwyseg.

Mae'r adroddiad 'Datgloi Potensial yr Ucheldir' (Rhagfyr 2012) yn argymell ymyrryd

yn y meysydd a ganlyn mewn perthynas ag Ucheldir Cymru:

Canolbwyntiodd yr ymchwil a’r gwaith casglu tystiolaeth ar bum prif faes:

- Gwneud y mwyaf o gynhyrchiant yn yr Ucheldir
- Gwneud y mwyaf o ddefnydd tir yn yr Ucheldir
- Datblygu economaidd
- Mynediad at Wasanaethau
- Galluogi Ucheldir Llewyrchus

Bydd y Strategaeth Datblygu Lleol yn cyfrannu at yr ymyriadau a ganlyn:

**Defnydd Tir**

- Yn treialu camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at wella’r rheolaeth o briddoedd mawn i hybu storio ac atafael carbon.
- Hybu’r defnydd o dechnegau rheoli tir er budd ansawdd dŵr a rheoleiddio dŵr.
- Galluogi cymunedau y sectorau i fanteisio fel un ar biomas a chynhyrchu tanwydd coed fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy.
- Cefnogi camau gweithredu cydweithredol ar raddfa’r tirwedd ar gyfer natur, ynni adnewyddadwy a mynediad.
- Ymchwilio i botensial taliadau enillion ffermydd gwynt er mwyn bod o mwy o fudd i gymunedau’r ucheldir.

**Datblygu Economaidd**

- Treialu camau gweithredu sy’n cyfrannu at wella mynediad i’r rhyngrwyd a thechnoleg symudol.
- Cefnogi datblygu mentora busnes a datblygu clystyrau busnes a chefnogi cadwyni cyflenwi byr.
- Treialu twristiaeth, bwyd a chrefftau yn defnyddio “brand yr Ucheldir”.

**Mynediad at Wasanaethau**

- Cefnogi cynlluniau trafnidiaeth arloesol, cymunedol sy’n ymateb i’r galw a fyddai’n cysylltu â chanolfannau trafnidiaeth gwledig, atebion allgymorth, symudol neu dechnolegol.
- Treialu a meithrin mentrau cymdeithasol fel mecanwaith posibl i gyflenwi

gwasanaethau cymunedol.

- Treialu prosiectau cymunedol arloesol sy’n ceisio goresgyn y bylchau a nodwyd yn y gwasanaethau yn lleol.

| ADRAN 9 – CYNALIADWYEDD TYMOR HIR |
|---|

| | |
|---|---|
| Disgrifiad | Eglurwch botensial y Grŵp Gweithredu Lleol i barhau â'r gwaith arfaethedig ar ôl i'r Rhaglen ddod i ben. |
| Yn gysylltiedig ag | Adran 5.0 Canllawiau'r Strategaeth Datblygu Lleol, Mehefin 2014 |

**9.1 Cynllun Prif-ffrydio**

**Lledaenu**

Mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu ein cynllun prif-ffrydio a lledaenu. Mae'n amlinellu pwy rydym yn rhagweld fydd ein prif grwpiau rhanddeiliaid, pa brif negeseuon a themâu dysgu y maent yn debygol o fod â diddordeb ynddynt, a sut y byddwn yn mynd ati i ledaenu gwybodaeth iddynt.

| Rhanddeiliad (Pwy) | Prif negeseuon a themâu dysgu i'w lledaenu (Beth) | Dulliau lledaenu (Sut) |
|---|---|---|
| Dinasyddion, grwpiau cymunedol a busnesau ardal wledig Sir Ddinbych | Ymwybyddiaeth o weithredoedd LEADER a'r cyfleoedd sydd ar gael.<br><br>Effeithlonrwydd dulliau gweithredu LEADER.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | Strategaeth gyfathrebu yn cynnwys cyhoeddiadau i'r wasg, diweddariadau rheolaidd ar y wefan, cylchlythyrau, digwyddiadau ac ati…<br><br>Deunyddiau astudiaethau achos. |
| Aelodau GGLl Sir Ddinbych | Perfformiad yn erbyn amcanion penodol a dangosyddion.<br><br>Effeithlonrwydd dulliau gweithredu LEADER.<br><br>Dulliau gweithredu penodol, arfer da neu ddulliau o weithio y gellid eu copïo neu'u prif-ffrydio.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | Diweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd y GGLl.<br><br>Deunyddiau astudiaethau achos.<br><br>Adroddiadau gwerthuso. |
| Aelodau a swyddogion yr awdurdod lleol | Perfformiad yn erbyn amcanion penodol a dangosyddion.<br><br>Effeithlonrwydd dulliau gweithredu LEADER. | Adroddiadau a chyflwyniadau i bwyllgorau allweddol.<br><br>Cyfarfodydd/briffiadau |

| | | |
|---|---|---|
| | Dulliau gweithredu penodol, arfer da neu ddulliau o weithio y gellid eu copïo neu'u prif-ffrydio.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | dwyochrol rheolaidd gyda swyddogion.<br><br>Adroddiadau gwerthuso. |
| Asiantaethau allweddol sy'n bartneriaid (e.c. CGSDd, AHNE, Safle Treftadaeth y Byd, Cadw) | Effeithlonrwydd dulliau gweithredu LEADER.<br><br>Dulliau gweithredu penodol, arfer da neu ddulliau o weithio y gellid eu copïo neu'u prif-ffrydio.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | Deunyddiau astudiaethau achos.<br><br>Adroddiadau gwerthuso.<br><br>Cylchlythyrau a briffiadau achlysurol.<br><br>Ymweliadau â phrosiectau. |
| Llywodraeth Cymru | Cynnydd a pherfformiad yn erbyn amcanion penodol a dangosyddion perfformiad y Strategaeth.<br><br>Effeithlonrwydd dulliau gweithredu a gweithredoedd LEADER.<br><br>Dulliau gweithredu penodol, arfer da neu ddulliau o weithio y gellid eu copïo neu'u prif-ffrydio.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | Gwybodaeth fonitro, data ac adroddiadau rheolaidd.<br><br>Adroddiadau gwerthuso.<br><br>Deunyddiau astudiaethau achos.<br><br>Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau.<br><br>Ymweliadau â phrosiectau. |
| Bwrdd Cyfarwyddwyr Cadwyn Clwyd | Cynnydd a pherfformiad yn erbyn amcanion penodol a dangosyddion perfformiad y Strategaeth.<br><br>Effeithlonrwydd dulliau gweithredu a gweithredoedd LEADER.<br><br>Dulliau gweithredu penodol, arfer da neu ddulliau o weithio y gellid eu copïo neu'u prif-ffrydio.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | Gwybodaeth fonitro, data ac adroddiadau rheolaidd.<br><br>Adroddiadau gwerthuso.<br><br>Deunyddiau astudiaethau achos.<br><br>Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a |

| | | |
|---|---|---|
| | | chynadleddau.<br><br>Ymweliadau â phrosiectau. |
| Grwpiau Gweithredu Lleol eraill yng Nghymru a thu hwnt | Effeithlonrwydd dulliau gweithredu a gweithredoedd LEADER.<br><br>Dulliau gweithredu penodol, arfer da neu ddulliau o weithio y gellid eu copïo neu'u prif-ffrydio.<br><br>Tystiolaeth o'r prif ganlyniadau i unigolion, cymunedau a busnesau. | Cymryd rhan mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau.<br><br>Adroddiadau gwerthuso.<br><br>Deunyddiau astudiaethau achos.<br><br>Ymweld â phrosiectau. |

Fel rhan o'i gyfrifoldeb parhaus i sicrhau bod y Strategaeth yn berthnasol, bydd y GGLlL yn adolygu a diweddaru'r cynllun lledaenu hwn yn rheolaidd.

**Prif-ffrydio camau gweithredu llwyddiannus**

Bydd y dull o brif-ffrydio camau gweithredu llwyddiannus yn seiliedig ar broses pum cam:

- **Cam 1: Treialu camau gweithredu** – treialu ac arbrofi gyda phrosesau a dulliau gweithredu newydd drwy'r amryw gamau gweithredu SMART a nodwyd yn y Strategaeth hon.

↓

- **Cam 2: Gwerthuso camau gweithredu** – profi dilysrwydd cysyniad ac yna cynnal profion trylwyr ar ddichonoldeb y camau gweithredu wrth iddynt ddatblygu.

↓

- **Cam 3: Lledaenu gwybodaeth** – cyhoeddi a rhannu canlyniadau, canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd.

↓

- **Cam 4: Uwchraddio** – archwilio cyfleoedd i gyflwyno camau gweithredu profedig a llwyddiannus ar raddfa ehangach e.e. trwy gronfeydd y CDG ac ESI neu gyfleoedd cyd-fuddsoddi eraill.

↓

- **Cam 5: Gwreiddio camau gweithredu** – manteisio'n llawn, masnacheiddio neu wreiddio'r camau gweithredu i farchnadoedd neu ddefnydd prif ffrwd.

## ADRAN 10 – DATGANIAD A LLOFNOD

Rwyf yn gweithredu gydag awdurdod y Grŵp Gweithredu Lleol ac yn tystio hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred bod yr wybodaeth a roddir yng nghais y Strategaeth Datblygu Lleol hon a'r dogfennau ategol yn wir ac yn gywir a bod y cais am gymorth ariannol am y lleiafswm sy'n ofynnol er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo.

Rwyf yn ymgymryd i roi gwybod i Lywodraeth Cymru ymlaen llaw ynghylch gwneud unrhyw newidiadau i natur y prosiect hwn.

Rwyf hefyd yn cadarnhau nad wyf yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na all y prosiect fynd rhagddo a bod modd cyflawni'r ymrwymiadau a'r gweithgareddau o fewn yr amseroedd a nodir.

**Cynrychiolydd y Grŵp Gweithredu Lleol (GGL)**

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | |
| **Enw:** | |
| **Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y GGLl:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Cynrychiolydd y Corff Gweinyddol**

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | |
| **Enw:** | Lowri Owain |
| **Swydd yn y Corff Gweinyddol:** | Prif Weithredwr, Cadwyn Clwyd |
| **Dyddiad:** | |

Rhaid i gopi caled o'r Strategaeth Datblygu Lleol gyrraedd y cyfeiriad isod erbyn **30 Medi 2014** fan bellaf

Uned Rheoli'r Cynllun, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3UR

A fyddech cystal â chyflwyno copi electronig i:
LEADER2014-2020@wales.gsi.gov.uk